# Cyngor Dinas Caerdydd

# Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

## Ebrill 2014 - Mawrth 2017

DRAFT

Fersiwn: 1.1
Dyddiad Cyhoeddi: 29 Ionawr 2016

## Cynnwys Tudalen


| Rhestr Cynnwys | | Tudalen |
|---|---|---|
| **Adran 1 – Cyflwyniad** | | **5** |
| | | |
| **Gweledigaeth Cyngor Dinas Caerdydd ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg** | | **5** |
| | | |
| **Adran 2 - Y Cynllun Gweithredu**<br>**Canlyniad 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg** | | **6** |
| 1.1 | Cynyddu nifer y plant saith oed sy’n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg | 6 |
| 1.2 | Mabwysiadu prosesau systematig ar gyfer mesur y galw am ofal plant Cymraeg a darpariaeth addysgol statudol Gymraeg. | 10 |
| 1.3 | Sicrhau bod cynigion Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cynnwys ystyriaeth lawn o addysg Gymraeg. | 12 |
| 1.4 | Sicrhau cydweithio drwy gonsortia. | 15 |
| 1.5 | Gwella gallu pobl i fanteisio ar ddarpariaeth Gymraeg drwy gynlluniau addysg drochi a chanolfannau i hwyrddyfodiaid. | 17 |
| 1.6 | Sefydlu Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg a chreu cysylltiadau â’r Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Sicrhau ystyriaethau o ran adnoddau a chyllid darpariaeth Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar. | 18 |
| 1.7 | Rhoi gwybodaeth i rieni/gofalwyr. | 19 |
| | | |
| **Canlyniad 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau ieithyddol wrth symud o’r ysgol gynradd i’r ysgol uwchradd** | | **20** |
| 2.1 | Cynnydd yng nghanran y dysgwyr Blwyddyn 9 a asesir yn Gymraeg (iaith gyntaf) | 20 |
| 2.2 | Datblygu trefniadau trosglwyddo mwy effeithiol rhwng y ddarpariaeth nas cynhelir i ddarpariaeth ysgol a gynhelir, rhwng Cyfnod Allweddol 2 a 3 a Chyfnod Allweddol 3 a 4. | 21 |
| | | |
| **Canlyniad 3: Mwy o ddysgwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.** | | **22** |
| **Canlyniad 4: Mwy o ddysgwyr 16-19 oed yn astudio pynciau yn Gymraeg mewn ysgolion, colegau a dysgu yn y gweithle.** | | **22** |
| 3:4.1 | Cynyddu canran y dysgwyr 14-16 oed sy’n astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg. | 22 |
| 3:4.2 | Sicrhau bod darpariaeth i ddysgwyr 14-16 yn cydymffurfio â Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 | 23 |
| 3:4.3 | Cynyddu canran y dysgwyr 16-19 oed sy’n astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion | 24 |

| | |
|---|---|
| 3:4.4 Gweithio drwy Rwydweithiau 14-19 a Fforymau Rhanbarthol 14-19 i gynnal a gwella'r ddarpariaeth Gymraeg | 25 |
| 3:4.5 Casglu, dadansoddi a defnyddio data ar gyfer y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg 14-19. Cynllunio ar gyfer y ddarpariaeth Gymraeg ôl-16 o fewn phartneriaethau | 26 |
| | |
| **Canlyniad 5: Mwy o ddysgwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg** | **28** |
| 5.1 Gwella'r ddarpariaeth i fynd i'r afael â llythrennedd yn Gymraeg | 28 |
| 5.2 Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Iaith Gyntaf | 30 |
| 5.3 Gwella'r ddarpariaeth a safonau Cymraeg Ail Iaith | 34 |
| 5.4 Gwella cyfleoedd i ddysgwyr o bob oedran ymarfer eu Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth | 38 |
| 5.5 Cynyddu nifer yr ymgeiswyr Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith Safon Uwch fel canran o nifer yr ymgeiswyr Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith TGAU. | 40 |
| | |
| **Canlyniad 6: Darpariaeth Gymraeg i ddysgwyr - Anghenion Dysgu Ychwanegol** | 42 |
| 6.1 Gwella'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) Gymraeg | 42 |
| | |
| **Canlyniad 7: Cynllunio'r gweithlu a Datblygiad Proffesiynol Parhaus** | 46 |
| 7.1 Sicrhau bod digon o ymarferwyr i ddarparu addysg Gymraeg | 46 |
| 7.2 Gwella sgiliau ieithyddol a sgiliau methodolegol ymarferwyr | 47 |
| 7.3 Integreiddio ystyriaethau cyfrwng Cymraeg i mewn i bob agwedd ar y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion | 58 |
| | |
| **Adran 3 – Sylwadau a nodiadau pellach** | 61 |
| | |
| **Atodiadau** | 62 |
| **Atodiad 1:** Nifer a chanran y disgyblion sy'n mynychu lleoliadau Cymraeg nas cynhelir sy'n darparu'r Cyfnod Sylfaen ac sy'n symud i ysgolion Cymraeg. | 62 |
| **Atodiad 2 -** Nifer a chanran y disgyblion mewn ysgolion cynradd Cymraeg a dwyieithog sy'n symud i ysgolion uwchradd Cymraeg. | 63 |
| **Atodiad 3 -** Cyrhaeddiad a pherfformiad Cymraeg Ail Iaith | 64 |
| **Atodiad 4 –** 17 Targed y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer 2015 i 2017. | 65 |


DRAFT

## Cyflwyniad

Cyflwynir Cynllun y Gymraeg mewn Addysg gan Gyngor Dinas Caerdydd mewn cydweithrediad â Chonsortiwm Canolbarth y De. Mae'r cynllun hwn yn nodi nodau ac amcanion y Cyngor i gyflawni 7 canlyniad a tharged Llywodraeth Cymru fel yr amlinellir yn y Strategaeth Addysg Gymraeg Genedlaethol (SAGG) ar lefel leol. Mae cyfres o 17 targed yn y ddogfen ac mae'r cynnydd yn cael ei fonitro'n flynyddol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cadw at ei ymrwymiad i sicrhau addysg cyfrwng Cymraeg o'r safon orau i bawb. Dangosir crynodeb o'r rhain yn Atodiad 4.

Mae cyd-destun dinesig Caerdydd yn newid, mae ei phoblogaeth yn cynyddu'n gyflym ac erbyn 2034 hi fydd y ddinas sy'n tyfu gyflymaf yn y DU, gyda chynnydd disgwyliedig o 26% yn y boblogaeth. I ddarparu ar gyfer y twf hwn bydd angen adeiladu 41,000 o gartrefi newydd a chreu 40,000 o swyddi newydd. Mae addasu i'r ddemograffeg newidiol hon yn heriol, ond mae'r Cyngor yn ymrwymedig i fanteisio ar y cyfleoedd y mae'n eu creu i gefnogi'r weledigaeth am Gaerdydd Ddwyieithog drwy ei ddarpariaeth addysg.

## Adran 1: Gweledigaeth Caerdydd ar gyfer addysg Gymraeg

### Cynorthwyo'r weledigaeth ehangach o greu "Caerdydd Ddwyieithog" drwy wasanaeth addysg trylwyr sy'n:

- Cynnig Addysg Cyfrwng Cymraeg **i bawb**, gyda phontio effeithiol rhwng oedrannau a chyfnodau;
- **Cynhwysol**, ac yn rhoi'r gallu i unrhyw berson ifanc dderbyn addysg dda drwy gyfrwng y Gymraeg waeth beth yw'r rhwystrau neu ei allu;
- **Dathlu** a hyrwyddo'r Gymraeg drwy addysgu i safon uchel a herio gallu dysgu'r plant;
- **Hyrwyddo** defnyddio'r Gymraeg yn ehangach, y tu allan i'r ystafell ddosbarth drwy chwarae a chyfleoedd i bobl ifanc a'r tu hwnt i'r ysgol mewn Addysg Bellach ac Uwch, hyfforddiant a chyflogaeth.

DRAFT

## Adran 2: Y Cynllun Gweithredu

<table>
<tr><th colspan="4">Canlyniad 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg</th></tr>
<tr><th>A. Amcan</th><th>B. Perfformiad cyfredol</th><th>C. Targedau</th><th>D. Cynnydd</th></tr>
<tr>
<td>1.1<br><br>Cynyddu nifer y plant saith oed sy’n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg</td>
<td>Canran y plant saith oed sydd yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd.<br><br>Ym mis Ionawr 2015<ul><li>Cyfanswm nifer y disgyblion ym Mlwyddyn 2 = 4,229</li><li>Disgyblion mewn ysgolion Cymraeg, neu ddosbarthiadau cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion dwy ffrwd = 668 (15.8%)</li></ul>Mae data Niferoedd ar y Gofrestr (NOR) Ionawr 2015 ac amcanestyniadau ar gyfer y cyfnod 2016 – 2017 wedi’u cynnwys yn y tabl isod.<br><br>
<table>
<tr><th>NOR / dyddiad yr amcanestyniad (Ionawr)</th><th>Disgyblion cyfrwng Cymraeg ym Mlwyddyn 2</th><th>% poblogaeth Blwyddyn 2 yr ysgol</th></tr>
<tr><td>2014 (Nifer ar y Gofrestr)</td><td>626</td><td>15.3%</td></tr>
<tr><td>2015 (Nifer ar y Gofrestr)</td><td>668</td><td>15.8%</td></tr>
<tr><td>2016 (targed)</td><td>663</td><td>15.6%</td></tr>
<tr><td>2017 (targed)</td><td>689</td><td>16.2%</td></tr>
</table>
<br>Mae’r targedau uchod yn ystyried amcanestyniadau sy’n seiliedig ar ddata cofrestru diweddaraf Meddygon Teulu’r GIG a roddwyd yn 2013, a nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg a lenwyd yn ffurflen CYBLD Ionawr 2015.<br><br>Nod y Cyngor yw sicrhau bod addysg Gymraeg ar gael i'r holl blant y mae eu rhieni neu warcheidwaid am iddynt gael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Sicrhawyd cynnydd fel a ganlyn:-</td>
<td>TARGED 1: Cynyddu canran y plant 7 oed sy’n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg i 16.2% o’r Nifer sydd ar y Gofrestr erbyn Ionawr 2017.</td>
<td>Ym mis Ionawr 2015, mae tua 668 o ddisgyblion wedi’u cofrestru mewn ysgolion Cymraeg ac mewn ffrydiau Cymraeg mewn ysgolion dwyieithog.<br><br>Mae hyn yn gynnydd o 80 disgybl ers Ionawr 2013.<br><br>Dylid nodi bod y nifer ar y gofrestr ar draws y ddinas ym mlwyddyn 2 wedi cynyddu yn gyffredinol.<br><br>Ymgynghoriad ar gynigion i gynyddu capasiti yn Ysgol y Wern wedi’i gwblhau.</td>
</tr>
</table>

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ehangwyd y Nifer Derbyn Cyhoeddedig yn Ysgol y Wern ym mis Medi 2015 gan arwain at gynnydd mewn disgyblion o 60FTE i 75FTE. Cwblheir y llety parhaol i reoli hyn erbyn Medi 2016.<br><br>Mae’r Cyngor wedi ymgynghori ar sefydlu ysgol gynradd Gymraeg 2DM newydd gyda 48FTE o leoedd meithrin yn ardaloedd Grangetown a Butetown erbyn Medi 2017 i sicrhau y bodlonir y galw cynyddol am leoedd cynradd cyfrwng Cymraeg ac i sicrhau cydbwysedd cynaliadwy yn y cyflenwad a'r galw am leoedd ym mhob ardal yn y ddinas.<br><br>Yn 2015, ymgynghorodd y Cyngor ar gynigion Ysgolion yr 21ain Ganrif i bennu Ysgol Glan Ceubal yn ysgol 1DM i wasanaethu ardal Ystum Taf y ddinas.<br><br>Mae’r Cyngor yn effeithiol o ran monitro a rhagweld newidiadau o ran y boblogaeth ac o ran y galw cymesur ar gyfer lleoedd cyfrwng Cymraeg, sy’n amrywio ledled y ddinas, ac mae wedi cyflwyno ystod eang o gynigion dros y chwe blynedd diwethaf i gynnig digon o leoedd.<br><br>Disgwylir i nifer y plant saith oed a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg gyrraedd 689 (16.2% o’r boblogaeth ysgolion) yn 2017. Mae’r amcanestyniadau hyn yn adlewyrchu cynnydd parhaus yn y galw, fodd bynnag, arafodd cyfradd y cynnydd rywfaint o fis Ionawr 2015.<br><br>Mae’r Cyngor yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer darparu 30 o leoedd cyfrwng Cymraeg ychwanegol i wasanaethu Sblot/Adamsdown o fis Medi 2016.<br><br>Mae lleihau dalgylch Ysgol Coed y Gof a diwygio dalgylch Ysgol Gwaelod-y-Garth i gynnwys rhan o Bentre-poeth ac alinio ffin y dalgylch ag un y sir wedi gwella'r cydbwysedd yn y cyflenwad a'r galw am leoedd cynradd Cymraeg yng Nghaerdydd a chynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael i drigolion Caerdydd.<br><br>Mae’r tabl isod yn nodi’r capasiti cyfredol a’r capasiti a gynigir yn ystod oes y cyfnod. | | Gwaith i’w ddechrau ar y safle yn Ionawr 2016.<br><br>Ymgynghoriad ar gynigion i gynyddu darpariaeth Gymraeg gynradd o fewn y Pedair Ward wedi’i gwblhau. Wedi’i gymeradwyo gan y Cabinet – cyhoeddwyd hysbysiad statudol i fwrw ymlaen â’r gwaith ar 10 Rhag 15.<br><br>Ymgynghoriad ar bennu Ysgol Glan Ceubal yn ysgol 1DM a chynyddu’r ystod oedran i 3-11 wedi’i gwblhau. Wedi’i gymeradwyo gan y Cabinet – cyhoeddwyd hysbysiad statudol i fwrw ymlaen â’r |

DRAFT

| **Enw'r ysgol** | Nifer Derbyn Cyhoeddedig i Addysg Gymraeg: Medi 2014 | Lleoedd ychwanegol dros dro: cynigir eu gwneud yn barhaol | Nifer Derbyn ar gyfer y dyfodol yn ystod oes y cynllun (targed 2017) |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Creigiau | 27 | **2** | **29** |
| Ysgol Bro Eirwg | 60 | | 60 |
| Ysgol Glan Ceubal | 28 | **2** | **30** |
| Ysgol Glan Morfa | 30 | | **60** |
| Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof | 60 | | 60 |
| Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd | 60 | | 60 |
| Ysgol Gymraeg Nant Caerau | 30 | | 30 |
| Ysgol Gymraeg Pwll Coch | 60 | | 60 |
| Ysgol Gymraeg Treganna | 90 | | 90 |
| Ysgol Gynradd Gwaelod-y-Garth | 27 | | 27 |
| Ysgol Gynradd Gymraeg Pen y Groes | 30 | | 30 |
| Ysgol Mynydd Bychan | 30 | | 30 |
| Ysgol Pen y Pil | 30 | | 30 |
| Ysgol Pencae | 30 | | 30 |
| Ysgol y Berllan Deg | 60 | | 60 |
| Ysgol y Wern | 60 | **15** | **75** |
| Darpariaeth ychwanegol Grangetown/ Butetown | 0 | 0 | **60** |
| **Cyfanswm nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg** | **712** | **19** | **821** |

Os caiff ei weithredu, byddai darparu 821 o leoedd Derbyn erbyn Ionawr 2017 yn galluogi derbyn hyd at 18.2% o'r garfan Derbyn a ragwelir i gael ei dderbyn i addysg Gymraeg, sef tua 11% yn fwy na'r garfan a ragwelir, gan alluogi digon o gwmpas ar gyfer cynnydd pellach yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg.

gwaith ar 10 Rhag 15.

Ymgynghoriad ar gynigion i gynyddu darpariaeth Gymraeg gynradd o fewn Wardiau Sblot/ Adamsdown wedi'i gwblhau. Wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet – cyhoeddwyd hysbysiad statudol i fwrw ymlaen â'r gwaith ar 10 Rhag 15.

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Trafnidiaeth Dysgwyr a hybu mynediad i addysg a hyfforddiant**<br><br>Mae Cyngor Caerdydd yn cynnig trafnidiaeth am ddim i’r ysgol ac yn ôl i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg o oedran ysgol statudol (5 i 16 oed) sy’n byw dros ddwy filltir i ffwrdd (ysgol gynradd) neu 3 milltir i ffwrdd (ysgol uwchradd) o’r ysgol ddalgylch agosaf i’w cyfeiriad cartref (wedi’i fesur gan ddefnyddio’r pellter cerdded byrraf posibl).<br><br>Caiff Polisi Trafnidiaeth Ysgol Cyngor Caerdydd ei gymhwyso yn union yr un ffordd ar gyfer disgyblion sy’n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion cyfrwng Saesneg, ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu ysgolion Catholig, ar yr amod eu bod yn mynychu’r ysgol ddalgylch briodol agosaf o un o’r categorïau hyn o fathau o ysgolion. Mae ysgol ddalgylch benodol ar gyfer pob categori o ysgolion, sy’n golygu y gall rhieni ddewis o blith 4 ysgol dalgylch i anfon eu plant iddynt o’r categorïau o ysgolion uchod, a darperir trafnidiaeth am ddim os ydynt yn byw ymhellach i ffwrdd na’r pellter statudol o’r ysgol ddalgylch briodol.<br><br>Mewn perthynas â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru), mae Ysgol Cyfrwng Saesneg ar gael i bob cartref yng Nghaerdydd, naill ai o fewn y pellterau cerdded statudol, neu’n agosach na’r Ysgol Cyfrwng Cymraeg agosaf (mae’r un egwyddor yn gymwys i Ysgolion Ffydd yng Nghaerdydd). Ar gyfer disgyblion lle mae ysgol ffydd neu Ysgol Cyfrwng Cymraeg yw’r ysgol agosaf, mae’r rhain eto o fewn y pellterau cerdded statudol, a chan hynny, dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru), nid oes unrhyw ofyniad statudol ar Gyngor Caerdydd i ddarparu trafnidiaeth am ddim i unrhyw Ysgol Gymraeg neu Ysgol Ffydd.<br><br>Fodd bynnag, er mwyn hybu mynediad i Ysgolion Cyfrwng Cymraeg, mae Cyngor Caerdydd wedi penderfynu darparu trafnidiaeth am ddim i ddisgyblion sy’n byw ymhellach i ffwrdd na’r pellterau cerdded statudol o’r Ysgol ddalgylch cyfrwng Cymraeg briodol agosaf, gan fod dalgylchoedd ysgolion cyfrwng Cymraeg yn dueddol o fod yn fwy o faint, a gan nad oes cymaint o ysgolion cyfrwng Cymraeg o gymharu ag ysgolion Saesneg.<br><br>Pan fydd ysgolion newydd yn agor a phan gaiff dalgylchoedd eu newid ar gyfer pob math/categori o ysgol, mae Caerdydd yn cymhwyso’r un egwyddor i bob categori yn y dalgylch newydd. Mae hynny’n berthnasol i bob disgybl sy’n dechrau mewn ysgol o’r mis Medi ar ôl gweithredu’r newid, ac mae’r dalgylchoedd newydd yn berthnasol i unrhyw ddisgyblion sy’n dechrau yn yr ysgol bob blwyddyn ddilynol wedi hynny. Mae’r hen ddalgylch yn dal i fod yn gymwys i unrhyw/pob disgybl yn y grwpiau blwyddyn hŷn | | **Cynnydd:**<br>Nid yw Cyngor Caerdydd yn darparu/ contractio bws ysgol â chymhorthdal mwyach lle mae disgyblion yn talu ffi ar gyfer pob taith. Mae’r rhain bellach yn cael eu darparu gan weithredwyr masnachol ar sail fasnachol ac nid oes gan y Cyngor unrhyw awdurdod mewn perthynas â’r gwasanaethau hyn, a lywodraethir gan y comisiynydd traffig.<br><br>Daeth y gwasanaethau hyn i ben o fis Medi 2015 ar gyfer ysgolion |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae disgyblion 16-19 oed yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim i'r ysgol/coleg drwy Gynllun Pasbort Teithio'r Cyngor os ydynt yn byw 3 milltir neu fwy i ffwrdd (wedi'i fesur gan ddefnyddio'r pellter cerdded byrraf posibl), a'u bod yn derbyn y Lwfans Cynhaliaeth Addysg Llawn gan Gyllid Myfyrwyr Cymru, i'r man astudio neu ysgol ddalgylch agosaf o'r cyfeiriad cartref. Gall disgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion cyfrwng Saesneg, ysgolion Ffydd a cholegau wneud cais am drafnidiaeth am ddim os ydynt yn bodloni meini prawf y prawf moddion a'r meini prawf o ran pellter hefyd. Noder bod y Cyngor yn tynnu'r cynllun hwn yn ôl ar gyfer disgyblion/myfyrwyr newydd 16-19 oed sy'n dechrau mewn chweched dosbarth neu goleg o fis Medi 2016. Dim ond disgyblion/myfyrwyr 16-19 oed cymwys sy'n rhan o'r Cynllun Pasbort i Astudio a fydd yn parhau i gael trafnidiaeth am ddim, gan gymryd nad yw eu cymhwysedd i'r cynllun yn newid. | | cynradd Cymraeg a mis Medi 2014 ar gyfer ysgolion uwchradd Cymraeg. |
| **1.2**<br><br>**Mabwysiadu prosesau systematig ar gyfer mesur y galw am ofal plant Cymraeg a darpariaeth addysgol statudol Gymraeg. Gweithredu'n brydlon ar ganfyddiadau arolygon rhieni.** | **Asesu'r galw**<br><br>Dan Ddeddf Gofal Plant 2006, mae dyletswydd statudol ar bob un o 22 Awdurdod Lleol Cymru i sicrhau gofal plant digonol i anghenion rhieni/gofalwyr sy'n gweithio yn yr ardal ar gyfer plant hyd at 14 oed, neu tan eu bod yn cyrraedd 18 oed ar gyfer plant ag anabledd. Un o elfennau craidd y ddyletswydd hon yw cwblhau Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP) bob tair blynedd sy'n asesu'r cyflenwad a'r galw am ofal plant yn yr Awdurdod Lleol ac yn nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth. Cynhaliodd y Cyngor arolwg dewis rhieni yn 2013/14 i gynorthwyo â'r gwaith o asesu'r galw am addysg a gofal plant cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg a darpariaeth ffydd. Cafwyd cyfradd ymateb isel o 268 ac roedd rhaniad o 60%/40% rhwng rhieni/gofalwyr a oedd am i'w plentyn/plant gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg neu'r Gymraeg.<br><br>Mae'r GGiD wrthi'n ymgynghori â Llywodraeth Cymru i benderfynu ar newidiadau yn y categorïau o'r diffiniadau Cymraeg y gall pob lleoliad gofal plant ei gynnig. Cynhelir yr arolwg ADGP llawn nesaf yn 2016/17. Bydd yn nodi lefelau galw a bylchau o ran digonolrwydd.<br><br>Mae methodoleg y Cyngor ar gyfer rhagweld y galw am leoedd yn defnyddio data unigoledig y gwasanaeth iechyd ar gyfer y boblogaeth cyn ysgol i wneud amcanestyniadau ar lefel dalgylch ysgol unigol, gan ddefnyddio model carfan safonol gan ystyried cyfran y lleoedd ysgol a lenwyd yn ddiweddar. Rhoddir y data hwn gan ysgolion. Mae'r Gwasanaeth Addysg hefyd yn gweithio mewn partneriaeth agos â swyddogion Cynllunio Strategol er mwyn sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer ei fethodolegau ar gyfer rhagweld nifer y disgyblion a ddaw o ddatblygiadau tai newydd, a bod mwy o leoedd ysgol cyfrwng Cymraeg ychwanegol | **Dd/B** | **Cynnydd:**<br>Er bod 2 Gylch Meithrin wedi cau yn ystod 2014/15, nid oes diffyg gofal plant Cymraeg yn y ddinas. Mae lleoedd gwag yn y rhan fwyaf o leoliadau sydd eisoes yn bodoli ac mae rhai'n ehangu i gynnig mwy o ddarpariaeth cofleidiol. Mae 2 leoliad gofal dydd newydd wedi agor eleni yn cynnig gofal plant Cymraeg a dwyieithog.<br><br>Bydd y lleoliad Dechrau'n Deg |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ar gael i wasanaethu cymunedau newydd (sef cyfran o 20% o leoedd cyfrwng Cymraeg / 80% o leoedd cyfrwng Saesneg) na'r galw sy'n bodoli eisoes mewn ardaloedd cyfagos.<br><br>Mae'r amcanestyniadau hyn yn sail i'r ffordd y mae'r Cyngor yn cynllunio lleoedd ysgol, ac o gymorth wrth amseru projectau adeiladu ysgolion ar gyfer ei gais llwyddiannus am arian Ysgolion yr 21ain Ganrif. | | Cymraeg cyntaf yn agor yn 2015/16 ac mae gan Mudiad Meithrin gynigion i ddatblygu lleoliadau Cymraeg yng Nghaerdydd ymhellach.<br><br>Mae'r Cyngor yn defnyddio data'r Gwasanaeth Iechyd Cyn Ysgol i ragweld y galw ar lefel dalgylch ysgol.<br><br>Mae hefyd yn gweithio'n effeithiol gyda'r Swyddog Cynllunio Strategol i sicrhau bod ei fethodolegau ar gyfer rhagweld y disgyblion a ddaw o ddatblygiadau tai newydd yn ddigonol. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1.3**<br><br>**Sicrhau bod cynigion Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cynnwys ystyriaeth lawn o addysg Gymraeg.** | **Cynlluniau ar gyfer y dyfodol**<br><br>Ailainiodd y Cyngor Sir ei Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ym mis Mawrth 2015. Mae poblogaeth Caerdydd wedi cynyddu’n sylweddol ers 2011 – cynnydd o 1.1% y flwyddyn, neu tua 3,800 o bobl. Felly roedd angen mynd i’r afael â digonolrwydd lleoedd ysgol ar draws pob sector.<br><br>Mae’r Cyngor yn monitro data cyn ysgol unigol a Chyfraddau Goroesiad Carfannau (cyn ysgol ac yn yr ysgol) yn ofalus sy'n golygu bod y Cyngor yn gallu rhagweld y nifer i’w derbyn hyd at fis Medi 2016. Gwelwyd cynnydd digynsail yng Nghaerdydd o ran y galw am addysg gynradd ac rydym yn ymrwymedig i ateb y galw hwn gan rieni am leoedd cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod lleoedd ar gael o fewn pellter rhesymol i’r cartref.<br><br>Mae rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Caerdydd yn ystyried yr holl alw ledled y ddinas. Dros y blynyddoedd cyn 2015, roedd y cynigion yn cynnwys sefydlu pum ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg:<br><br>• Ysgol Tan yr Eos, Ysgol Nant Caerau ac Ysgol Pen y Pil ym mis Medi 2007<br>• Ysgol Pen y Groes yn 2008, gan dderbyn disgyblion o fis Medi 2009.<br>• Ysgol Glan Ceubal yn 2009<br><br>Cynhaliwyd chwe dosbarth Ysgol Tan yr Eos (yn Ysgol Gynradd Parc Ninian) tan fis Medi 2012, gan ddarparu 30 o leoedd mynediad ychwanegol. Ar ôl cwblhau’r gwaith o godi adeilad newydd Ysgol Treganna â 3 dosbarth mynediad, caewyd Tan yr Eos a throsglwyddwyd pob disgybl i Ysgol Treganna, a ehangwyd - cynnydd pellach o 34 o leoedd mynediad.<br><br>Mae pob un o’r tair ysgol a sefydlwyd yn ddiweddar (Ysgol Pen y Pil, Ysgol Nant Caerau ac Ysgol Pen y Groes) yn darparu dosbarth mynediad ychwanegol ac maent oll mewn adeiladau parhaol. Mae buddsoddi yn y pumed ysgol (Ysgol Glan Ceubal) yn rhan o raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor ac yn amodol ar ymgynghoriad a chymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr achos busnes.<br><br>Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg sy’n bodoli eisoes, gan gynnwys Ysgol Gwaelod-y-Garth, Ysgol Creigiau ac Ysgol Glan Morfa wedi’u hehangu hefyd. | **TARGED 2:**<br>Sicrhau cynnydd o 90 lle ychwanegol mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn mis Medi 2017. | **Cynnydd:**<br>Ailalinio Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Mawrth 2015 i ystyried cynnydd sylweddol yn y boblogaeth a phroblemau o ran digonolrwydd, gan gynnwys lleoedd cyfrwng Cymraeg, ledled y Ddinas.<br><br>Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ychwanegol 2DM o leoedd Cymraeg yn Butetown a Grangetown ac 1DM ychwanegol yn Adamsdown a Sblot. Hefyd, pennu Glan Ceubal yn 1DM a chynyddu'r ystod oedran i 3-11 i gynnwys darpariaeth feithrin. Yn olaf, pennu Ysgol y Wern yn ysgol 2.5DM a lleoedd |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae project yn mynd rhagddo i gynyddu ac atgyfnerthu capasiti Ysgol Melin Gruffydd ar hen safle Ysgol Gynradd yr Eglwys Newydd. Bydd capasiti'r ysgol yn cynyddu o 1.5DM (mewn adeiladau dros dro yn bennaf) i 2DM mewn adeiladau parhaol o ansawdd uchel.<br><br>Mae project Ysgolion yr 21ain Ganrif wedi cynyddu capasiti Ysgol y Wern o 1.8DM (gyda llawer o adeiladau dros dro) i 2DM mewn adeiladau parhaol, a gwblhawyd yn 2015. Mae trefniadau dros dro wedi galluogi'r ysgol i dderbyn hyd at 75 disgybl i'r Dosbarth Derbyn ers blynyddoedd. Mae Project ail gam i gynyddu capasiti parhaol yr ysgol i 2.5DM gyda lleoedd meithrin ychwanegol o fis Medi 2015 wedi'i weithredu, a disgwylir i'r gwaith gychwyn ar y safle yn y flwyddyn newydd yn 2016.<br><br>Caiff y Project i gynyddu capasiti cynradd i 1DM a sefydlu darpariaeth feithrin cyfwerth â 24 o leoedd llawn amser yn Ysgol Glan Ceubal i ateb y galw lleol ei gyflwyno gerbron y Cabinet yn Rhagfyr 2015 a'i gwblhau yn 2017, yn amodol ar Lywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r achos busnes.<br><br>Cynigiwyd darpariaeth Gymraeg 2DM ychwanegol i ateb y galw cynyddol yn ardal Grangetown a Butetown a'r cyffiniau. Mae'n amodol ar ymgynghoriad a chymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer achos busnes. Cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid yn nhymor yr haf 2014 a bydd y Cabinet yn ystyried canfyddiadau ymgynghoriad statudol yn Rhagfyr 2015.<br><br>Mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu cyflwyno cynigion ar gyfer darparu 30 o leoedd cyfrwng Cymraeg ychwanegol i wasanaethu Sblot/Adamsdown o fis Medi 2017.<br><br>Gwnaed buddsoddiad sylweddol gwerth tua £11.7m yn y ddwy ysgol uwchradd Gymraeg gyfredol, gyda rhagor o fuddsoddiad wedi'i gynllunio i sefydlu trydedd ysgol uwchradd Gymraeg (Ysgol Bro Edern) a agorwyd ym mis Medi 2012.<br><br>Yn dilyn cwblhau'r cynigion cymeradwy a'r rheini a gyflwynwyd fel rhan o Fand A rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, bydd nifer y lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd yn cynyddu gan ychydig dros 2,700 rhwng 2012 a 2018 fel dengys y tabl isod (dim ond yr ysgolion hynny yr effeithiwyd ar eu capasiti sydd wedi'u cynnwys yn y tabl). | | meithrin ychwanegol. |

DRAFT

| Enw’r ysgol | Capasiti: Ionawr 2012 | Capasiti: Ionawr 2018 |
|---|---|---|
| Ysgol Glan Ceubal | 57 | 210 |
| Ysgol Glan Morfa | 178 | 270** |
| Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd | 315 | 420 |
| Ysgol Gymraeg Nant Caerau | 90 | 210 |
| Ysgol Gymraeg Treganna | 169 | 630 |
| Ysgol Gynradd Gymraeg Pen y Groes | 49 | 210 |
| Ysgol Pen y Pil | 120 | 210 |
| Ysgol y Wern | 372 | 525 |
| Ysgol Tan yr Eos | 120 | 0 |
| Darpariaeth ychwanegol arfaethedig yn Grangetown / Butetown | 0 | 120* |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf | 1,299 | 1,500 |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr | 993 | 1,080 |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern | 0 | 1,116 |
| **Cyfanswm nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg** | **3,762** | **6,501** |
| Cynnydd net | | **2,739** |

*Agor fesul cam – darparu 60 o leoedd ychwanegol fesul grŵp blwyddyn o fis Medi 2016
**Agor fesul cam – darparu 30 o leoedd ychwanegol fesul grŵp blwyddyn o fis Medi 2016

Mae darparu lleoedd cyfwng Cymraeg yn rhan o Fframwaith Strategol y Cyngor, sy’n ceisio paru’r ddarpariaeth o leoedd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg gyda’r galw lleol. Mae’r Cyngor wedi mynd i’r afael â hyn yn llwyddiannus, a lle bynnag y bo’n bosibl, mae wedi defnyddio capasiti dros ben mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sy’n bodoli eisoes i ehangu’r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.

<table>
<tr>
<td></td>
<td>Mae'r tabl isod yn dangos newidiadau i Niferoedd Derbyn a dderbynnir o ganlyniad i ehangiad diweddar ac arfaethedig y ddarpariaeth ysgolion cyfrwng Cymraeg ledled y ddinas.<br><br>
<table>
<tr><th rowspan="2"></th><th colspan="3">Niferoedd Derbyn Cyhoeddedig Cyfunol</th></tr>
<tr><th>2007</th><th>2014</th><th>2017</th></tr>
<tr><td>Ysgolion Cynradd / dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg</td><td>544</td><td>712</td><td>819</td></tr>
<tr><td>% cynnydd: 2007 – 2014</td><td></td><td>30.9%</td><td></td></tr>
<tr><td>% cynnydd: 2007 – 2017</td><td></td><td></td><td>50.6%</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg</td><td>359</td><td>600</td><td>600</td></tr>
<tr><td>% cynnydd: 2007 – 2017</td><td></td><td></td><td>67.1%</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
</table>
</td>
<td></td>
<td></td>
</tr>
<tr>
<td>1.4<br><br>Sicrhau cydweithio drwy gonsortia.</td>
<td>Cydlynu agweddau ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg<br><br>Mae pob ysgol yn rhan o Grwpiau Gwella Ysgolion (GGYau). Mae GGYau yn nodi meysydd i'w datblygu i grwpiau o ysgolion ac yn cynnig neu'n comisiynu'r cymorth sydd ei angen i sicrhau gwelliant. Bydd y meysydd i'w datblygu'n cynnwys Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith lle bo'r ysgolion yn cytuno ar hyn. At hynny, mae hybiau gwella a chanolfannau arbenigol, wedi'u lleoli mewn ysgolion a chan ddefnyddio arbenigedd ymarferwyr effeithiol, yn cynnig rhaglenni o gymorth.<br><br>Mae ysgolion cynradd Cymraeg ar draws y rhanbarth hefyd wedi ffurfio ffederasiwn y maent oll yn perthyn iddo. Bydd y ffederasiwn, gyda chymorth CCD, yn llywio cymorth y rhanbarth fwyfwy drwy nodi anghenion cymorth y sector. Mae rhwydwaith eilaidd o ysgolion Cymraeg wrthi'n datblygu strategaeth i ddatblygu cymorth ledled CCD; y bwriad yw ehangu'r rhwydwaith hwn i ysgolion uwchradd Cymraeg mewn ardaloedd cyfagos, y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ac Erw.<br><br>Mae ysgolion felly'n symud fwyfwy at fodel lle maent yn nodi eu hanghenion cymorth ac yn comisiynu'r cymorth hwnnw gan ddarparwyr effeithiol o fewn y sector. Nid yw CCD yn cyflogi arweinydd cyfrwng Cymraeg strategol mwyach; mae'r strategaeth bellach yn cael ei phennu gan yr ysgolion eu hunain.</td>
<td>Dd/B</td>
<td>Cynnydd: Mae cymorth ysgolion yn CCD bellach yn cael ei ffurfio yn seiliedig ar fodel Her Canol De Cymru (HCDC) a model cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith rhanbarthol.<br><br>Mae CCD wedi sefydlu tri hyb cyfrwng Cymraeg a 3 hyb uwchradd Cymraeg ail iaith</td>
</tr>
</table>

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dyma rai enghreifftiau o gymorth mewn hybiau o ran Cymraeg ail iaith:<br><br>Asesu Dysgu mewn Gwers Cymraeg Ail Iaith<br>Dydd Mawrth 1 Rhagfyr 2015<br>Ysgol Gyfun y Bont-faen<br><br>Datblygu Darllen yn CA3<br>Dydd Iau 14 Ionawr 2016<br>Ysgol Uwchradd Caerdydd<br><br>Arferion sy’n Arwain y Sector Cymraeg Ail Iaith<br>Dydd Llun 25 Ionawr 2016 Ysgol Gyfun Treorci<br><br>Herio’r Mwy Galluog a Thalentog (Cymraeg Ail Iaith)<br>Dydd Mawrth 23 Chwefror 2016<br>Ysgol Gyfun Treorci<br><br>Sgiliau Digidol yn y Dosbarth Cymraeg Ail Iaith<br>Dydd Mawrth 15 Mawrth 2016<br>Ysgol Gyfun y Bont-faen<br><br>Datblygu Llythrennedd Ddigidol mewn Cymraeg Ail Iaith<br>Dydd Mawrth 10 Mai 2016 Ysgol Gyfun y Bont-faen<br><br>Methodoleg Addysgu Cymraeg Ail Iaith<br>Dydd Mawrth 7 Mehefin 2016<br>Ysgol Gyfun Treorci<br><br>Rhaglen Gwella Athrawon<br>Dydd Mercher 11 Mai 2016<br>Ysgol Bro Morgannwg.<br><br>At hynny, mae wyth Swyddog y Gymraeg mewn Addysg yn gweithio mewn ysgolion Saesneg yn cefnogi ymarferwyr i hyrwyddo safonau addysgu a dysgu rhagorol a llythrennedd Cymraeg ail iaith. | | i gynnig cymorth ledled y rhanbarth. Mae hyb uwchradd Cymraeg ail iaith wedi’i gynllunio. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Mae'r cymorth cyfrwng Cymraeg mewn hybiau yn cynnwys:**<br><br>Codi Safonau Llythrennedd Ysgol-gyfan drwy Waith Partneriaeth<br>Dydd Gwener 18 Mawrth 2016 Lleoliad: Ysgol Sant Curig<br><br>Codi Safonau Llythrennedd Ysgol-gyfan drwy Waith Partneriaeth<br>Dydd Gwener 5 Chwefror 2016, Ysgol Sant Curig<br><br>Asesu i Ddysgu a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol<br>Dydd Gwener 22 Ebrill 2016 Y.G.G.<br>Cynwyd Sant<br><br>At hynny, mae dau Swyddog y Gymraeg mewn Addysg (SGA) yn gweithio mewn ysgolion cynradd Cymraeg; mae Ymgynghorydd Cymraeg Cymwys am Oes (athro uwchradd ar secondiad) yn ei swydd o fewn y consortiwm ac yn gweithio gyda'r sector Cymraeg uwchradd yn cynnig cymorth ar gyfer y manylebau TGAU newydd ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf. Caiff Llythrennedd Cymraeg hefyd ei gefnogi.<br><br>Mae cynnydd/gwelliant pob ysgol yn cael eu monitro gan Gynghorwyr Herio CCD. | | |
| **1.5**<br><br>**Gwella gallu pobl i fanteisio ar ddarpariaeth Gymraeg drwy gynlluniau addysg drochi a chanolfannau i** | **Hwyrddyfodiaid a rhaglenni trochi i hwyrddyfodiad**<br><br>Sefydlwyd uned yr awdurdod lleol i hwyrddyfodiad i addysg Gymraeg, sydd wedi'i lleoli yn Ysgol Meadowbank (Gabalfa) ym mis Gorffennaf 2010. Mae Caerdydd wedi parhau â'r ymrwymiad hwn i gynorthwyo a chynnal y cynllun hwn ledled y ddinas. Mae un athro cymwys a dau gynorthwy-ydd addysgu llawn amser ymhlith staff presennol yr uned, cynnydd o 1 Cynorthwy-ydd Addysgu ar gyfer Medi 2015.<br><br>Mae'r disgyblion yn hwyrddyfodiad i addysg Gymraeg ac yn cynnwys disgyblion sydd wedi byw'r tu allan i Gymru, disgyblion sy'n trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg neu ddisgyblion sydd wedi'u maethu neu eu mabwysiadu.<br>Mae'r uned yn derbyn disgyblion pan fônt yn cofrestru mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. | **TARGED 3:** Sicrhau bod 100% o'r disgyblion sy'n mynychu Canolfan Drochi yn mynd ymlaen i Addysg Cyfrwng Cymraeg erbyn mis Medi 2017. | **Cynnydd:** Yn sgîl twf yr uned bu'n rhaid symud i Meadowbank, ac mae bellach mewn 3 ystafell yn lle 1 i reoli'r galw.<br><br>Mae'r Cyngor nawr yn cynnig trafnidiaeth i ddisgyblion i'r |

<table>
<tr>
<td>hwyrddyfodia id</td>
<td>
Bydd disgyblion yn treulio tymor yn yr Uned Drochi (h.y. wrth ddod yn siaradwyr Cymraeg rhugl) ac yn cael cymorth yn eu hysgol gofrestredig am dymor ar ôl gadael.
Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion o oedran Cyfnod Sylfaen, ond mae nifer o ddisgyblion CA2 wedi mynychu’r uned, rhai yn eu tymor olaf yn yr ysgol gynradd, ac maent oll wedi’u hintegreiddio’n llwyddiannus i mewn i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.
Mae disgyblion CA3 wedi cael cymorth mewn Ysgolion Uwchradd dan amgylchiadau penodol pan fo disgyblion wedi dychwelyd i Addysg Cyfrwng Cymraeg.
Mae nifer y disgyblion a dderbyniwyd i’r uned wedi parhau i gynyddu fel y nodir isod:
<table>
<tr><th>Cyfnod Allweddol</th><th>2012/13</th><th>2013/14</th><th>2014/15</th><th>Targed 2015/16</th><th>Targed 2016/17</th></tr>
<tr><td>Disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen</td><td>17</td><td>14</td><td>10</td><td>Dd/B</td><td>Dd/B</td></tr>
<tr><td>Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2</td><td>5</td><td>4</td><td>11</td><td>Dd/B</td><td>Dd/B</td></tr>
<tr><td>Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3</td><td>1</td><td>3</td><td>1</td><td>Dd/B</td><td>Dd/B</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm y disgyblion</td><td>23</td><td>21</td><td>22</td><td>Dd/B</td><td>Dd/B</td></tr>
<tr><td>Disgyblion sydd wedi trosglwyddo’n barhaol i Addysg Uwchradd Cyfrwng Cymraeg</td><td>23</td><td>21</td><td>21</td><td>Dd/B</td><td>Dd/B</td></tr>
<tr><td>% y disgyblion a drosglwyddodd i addysg Cyfrwng Cymraeg</td><td>100%</td><td>100%</td><td>95%</td><td>100%</td><td>100%</td></tr>
</table>
</td>
<td></td>
<td>
uned, a ddechreuodd ym mis Medi. Mae hyn wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol, gyda chynnydd mewn defnydd o ganlyniad.
Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig ar ôl bod yn yr uned. Un o’r uchafbwyntiau diweddar oedd pan gyflawnodd un disgybl lefel 7 CA3 mewn Cymraeg ar ôl cael ei addysgu yn yr uned.
</td>
</tr>
<tr>
<td>1.6<br><br>Sefydlu Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg Sicrhau</td>
<td>
Y Fforwm Addysg Gymraeg
Mae Caerdydd wedi sefydlu Fforwm y Gymraeg mewn Addysg. Mae’r grŵp wedi cytuno ar y Cylch Gorchwyl canlynol:
<ul><li>Cydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 sy’n gosod rhwymedigaeth statudol ar awdurdodau lleol i baratoi a gweithredu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.</li></ul>
</td>
<td>Dd/B</td>
<td>Cynnydd:<br><br>Cyfarfod diweddaraf y Fforwm Addysg Gymraeg ar 11/11/15. Ystyriwyd diweddariadau i</td>
</tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| **ystyriaethau o ran adnoddau a chyllid darpariaeth Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar** | • Sicrhau bod rhanddeiliaid yn cymryd rhan yn y broses o baratoi, cyflwyno ac adolygu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer Caerdydd.<br><br>Mae'r Fforwm yn cael ei gadeirio gan y Pennaeth Trefniadaeth Ysgolion a'r Swyddog Mynediad a Chynllunio, ac mae'r aelodau'n cynnwys swyddogion o'r Awdurdod Lleol. Ceir cynrychiolwyr o ysgolion, y Consortiwm, Rhieni Dros Addysg Gymraeg, Mudiad Meithrin, Menter Caerdydd a Chymdeithas Llywodraethwyr Caerdydd.<br><br>Mae'r fforwm yn cyfarfod bob tymor ac wedi sefydlu rhaglen waith amlinellol i gyd-fynd â'r broses ddeddfwriaethol. | | Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, capasiti a niferoedd derbyn Cyfrwng Cymraeg. Effaith safleoedd tai'r CDLl ar y ddinas. |
| **1.7**<br><br>**Rhoi gwybodaeth i rieni/gofalwyr** | **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd**<br><br>Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn cadw cronfa ddata o'r holl ddarparwyr gofal plant cofrestredig, gan gynnwys darparwyr cyfrwng Cymraeg. At hynny, mae manylion darparwyr nad oes yn rhaid iddynt gofrestru ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), gan eu bod yn gweithredu am lai na dwy awr, hefyd yn cael eu cadw os ydynt wedi eu rhoi i'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Mae'r rhain yn cynnwys clybiau ar ôl ysgol, brecwast, cinio a gwyliau. Mae gwefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn cynnig gwybodaeth am yr hawl sydd gan blant 3 a 4 oed i gael addysg feithrin am ddim yn ogystal ag ystod o wybodaeth am Wasanaethau Cymorth i Deuluoedd a Gweithgareddau drwy'r cyfleusterau chwilio ar-lein yn www.ggid-caerdydd.info. At hynny, gall y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd atgyfeirio rhieni at raglen Dechrau'n Deg Caerdydd lle y bo'n briodol.<br><br>Mae deunydd hyrwyddo, gan gynnwys posteri a thaflenni gwybodaeth sy'n cael eu llunio gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, yn ddwyieithog, yn ogystal â gwefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a chyfeiriadur ar-lein o Ofal Plant, Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd a Gweithgareddau.<br><br>Mae Gwasanaethau Cymorth Busnes Gofal Plant yn helpu i gynnal y ddarpariaeth sydd eisoes yn bodoli a gwella ansawdd gofal plant yng Nghaerdydd. Gall gwasanaethau gynnwys: - help gyda pholisïau a gweithdrefnau, ceisiadau AGGCC, marchnata, recriwtio staff, ennill arian a cheisiadau grant. Mae Gwasanaethau Cymorth Busnes Gofal Plant ar gael i ddarparwyr gofal plant newydd a chyfredol – gall swyddogion weithio gydag ysgolion, cylchoedd chwarae, meithrinfeydd dydd, clybiau ar ôl ysgol a chlybiau gwyliau, Cylch | **Dd/B** | **Cynnydd:**<br><br>Bydd gwefan GGiD newydd yn mynd yn fyw yn y flwyddyn newydd, a fydd yn fwy effeithlon ac yn cynnig mynediad i wybodaeth i rieni/gofalwyr a darparwyr gofal plant.<br><br>Mae yna gronfa ddata newydd i bob darparwr gofal plant ei ddiweddaru a chynnal ei wybodaeth arni gyda'r nod o wella ansawdd y |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Meithrin, crèches a gwarchodwyr plant. Mae'r holl wasanaethau cymorth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a Saesneg.<br><br>Mae'r GGiD wrthi'n ymgynghori â Llywodraeth Cymru i benderfynu ar newidiadau yn y categorïau o'r diffiniadau Cymraeg y gall pob lleoliad gofal plant ei gynnig. Cynhelir yr arolwg ADGP llawn nesaf yn 2016/17. Bydd yn nodi lefelau galw a bylchau o ran digonolrwydd.<br><br>Ar gyfer llawer o rieni di-Gymraeg, Cylch Ti a Fi yn aml yw eu blas cyntaf ar y Gymraeg, a mynychu Cylch Meithrin yw'r cam cyntaf ar daith y plentyn at ddwyieithrwydd. Nodir y cynnydd a wnaed gan Mudiad Meithrin a'r Cylchoedd Meithrin / Cylchoedd Ti a Fi yn 2015 isod.<br><br>• Prif nod Mudiad Meithrin yw cynnig gofal ac addysg blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg ac annog dilyniant o Cylch Ti a Fi i'r Cylch Meithrin lleol, ac ymlaen i addysg Gymraeg.<br><br>• Mae Mudiad Meithrin yn cyflogi Swyddog Cymorth ar gyfer y Cylchoedd Meithrin (27 awr) a Swyddog Ti a Fi (y mae ei rôl 20 awr yn cael ei hariannu gan Teuluoedd yn Gyntaf).<br><br>• Mae yna 14 o Gylchoedd Meithrin a 7 Cylch Ti a Fi yng Nghaerdydd. O'r 14 o Gylchoedd Meithrin, mae 6 yn ddarparwyr Dechrau'n Deg, 11 yn ddarparwyr Addysg, 5 yn darparu Dechrau'n Deg ac Addysg i blant 3 oed, 8 yn cynnig gofal cofleidiol a 2 yn darparu brecwast. At hynny, mae 2 feithrinfa ddydd wedi cofrestru eleni fel aelodau gyda Mudiad Meithrin (The Hollies a'r Jiráff Gwyrdd).<br><br>• Mae swyddogion Mudiad Meithrin wedi gweithio gyda a chefnogi ymgyrch TAG. Mae gennym Gylch Ti a Fi a Chylch Meithrin yn ardal Grangetown i fwydo'r ysgol newydd pan fydd yn agor.<br><br>• Mae gormod wedi cofrestru yng Nghylch Meithrin y Parc yn ardal Treganna. | | wybodaeth sydd ar gael. |

DRAFT

Mae ein swyddog cymorth wedi bod yn gweithio'n agos gyda rhieni yn yr ardal i gynnig cyngor a chymorth gyda'r bwriad o agor Cylch Meithrin newydd. Mae lleoliad addas wedi'i nodi ac mae'r rhent yn cael ei drafod.

- Bydd Cylch Meithrin newydd yn agor yng Nglan Ceubal yn Ionawr 2015. Mae staff Mudiad Meithrin wedi dod o hyd i leoliad addas a phwyllgor o wirfoddolwyr ac wedi hysbysebu am staff newydd.

- Lansiwyd canolfan hyfforddi Mudiad Meithrin, 'AcadeMi', yn Awst 2015 a bydd yn cynnig hyfforddiant pwrpasol i'r Cylchoedd Meithrin am ddim ledled Cymru.
  Bydd yr hyfforddiant hwn yn amrywiol a bydd yn cynnwys: - cyfnod sefydlu a rolau a chyfrifoldebau ar gyfer Pwyllgorau Rheoli, trochi iaith, gweithdai Cymraeg, asesiadau risg ac iechyd a diogelwch, delio â gwrthdaro a rheoli perfformiad.

- Mae Swyddogion Cymorth Mudiad Meithrin wedi darparu cymorth parhaus i'r Cylchoedd Meithrin a'r Cylchoedd Ti a Fi drwy gydol y flwyddyn.
  Roedd y cymorth hwn yn cynnwys cyngor AD ar gyfer pwyllgorau rheoli, penodi staff newydd, cofrestriad AGGCC, cynllunio busnes, rhagolygon ariannol, ansawdd a safonau. Mae'r Cylchoedd Meithrin yn cael o leiaf un ymweliad y tymor (mae hyn yn amrywio yn dibynnu ar angen pob Cylch unigol). Mae Mudiad Meithrin hefyd wedi diwygio ei ofynion ymaelodi gan sicrhau bod pob Cylch Meithrin yn bodloni gofynion ansawdd Mudiad Meithrin. Mae'r aelodau newydd hefyd yn cynnig diogelwch llawn/indemniad i bwyllgorau Rheoli. Mae swyddogion cymorth Mudiad Meithrin hefyd yn cynghori a thywys y Cylchoedd Meithrin drwy safonau ansawdd newydd Mudiad Meithrin, 'Safonau Serennog', sydd wedi disodli'r 'Cylch Rhagorol' er mwyn sicrhau ein bod yn gwthio safonau ym mhob Cylch Meithrin.

- Mae Swyddogion Cymorth Mudiad Meithrin wedi cynnig cymorth i'r 7 Cylch Ti a Fi o fewn y sir, gydag o leiaf un ymweliad bob hanner tymor.
  Mae holiadur wedi'i anfon i rieni yn gofyn am eu profiadau yn y Cylchoedd a ph'un a oes angen rhagor o wybodaeth arnynt am y Cylchoedd Meithrin lleol/addysg Gymraeg/gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Mae Mudiad Meithrin wedi cyflwyno data pontio ar gyfer 2014-15 gan y Cylchoedd Meithrin i ysgolion.
  Mae'r adroddiad hwn wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

DRAFT

<table>
<tr><th colspan="4">Canlyniad 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau ieithyddol wrth symud o’r ysgol gynradd i’r ysgol uwchradd</th></tr>
<tr><th>A. Amcan</th><th>B Y Sefyllfa bresennol</th><th>C. Targedau</th><th>D. Cynnydd</th></tr>
<tr>
<td>2.1<br><br>Cynnydd yng nghanran y dysgwyr Blwyddyn 9 a asesir yn Gymraeg (Iaith Gyntaf)</td>
<td>Ionawr 2015<br><br>• Cyfanswm nifer y disgyblion ym Mlwyddyn 9 = 3,326<br>• Disgyblion mewn ysgolion Cymraeg, neu unedau mewn dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg = 393 (11.8%)<br><br>Mae nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion uwchradd Cymraeg Caerdydd yn cynyddu'n gyson wrth i nifer y lleoedd sydd ar gael yn yr ysgolion cynradd gynyddu.<br><br>Yn sgîl sefydlu’r ysgol uwchradd Gymraeg newydd, Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern, ym mis Medi 2012, cynyddodd nifer y lleoedd mynediad i addysg uwchradd i 600, a chynyddodd cyfanswm nifer y lleoedd yn y sector uwchradd i 3,694.<br><br>Mae digon o leoedd cyfrwng Cymraeg ar gael yn yr ysgolion uwchradd sy’n bodoli eisoes i ateb y galw drwy oes y cynllun. Dengys yr amcanestyniadau y bydd mwy o blant yn cael eu derbyn i ysgolion uwchradd Cymraeg na nifer y lleoedd sydd ar gael ym mis Medi 2019. Er y bydd y gyfran gyffredinol o leoedd gwag sydd ar gael yn yr ysgolion hyn yn dal i fod yn uwch na 10% ar yr adeg honno, mae’r Cyngor yn monitro’r galw am leoedd yn y Cyfnod Sylfaen er mwyn cynnig datrysiadau priodol i sicrhau bod nifer y lleoedd ysgol uwchradd sydd ar gael ledled y ddinas yn cyfateb i’r galw.</td>
<td>TARGED 4: Cynyddu canran y disgyblion blwyddyn 9 sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg i 13.7% ym mis Medi 2017.<br><br>
<table>
<tr><th>Nifer ar y Gofrestr/ dyddiad targed (Ionawr)</th><th>Disgyblion cyfrwng Cymraeg ym Mlwyddyn 9</th><th>% y Disgyblion Cyfrwng Cymraeg</th></tr>
<tr><td>2014 (Nifer ar y Gofrestr)</td><td>369</td><td>11.2%</td></tr>
<tr><td>2015 (Nifer ar y Gofrestr)</td><td>393</td><td>11.8%</td></tr>
<tr><td>2016 (targed)</td><td>421</td><td>13.0%</td></tr>
<tr><td>2017 (targed)</td><td>459</td><td>13.7%</td></tr>
</table></td>
<td>Mae’r niferoedd Cyfrwng Cymraeg wedi ehangu ym mlwyddyn 9. Fodd bynnag, disgwylir i’r ganran gynyddu dros y 2 flynedd nesaf gan fod mwy o blant yn cael eu derbyn i’r cyfnod cynradd.</td>
</tr>
</table>

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| **2:2**<br><br>**Datblygu trefniadau trosglwyddo mwy effeithiol rhwng y ddarpariaeth nas cynhelir i ddarpariaeth ysgol a gynhelir, rhwng Cyfnod Allweddol 2 a 3 a Chyfnod Allweddol 3 a 4.** | Y sefyllfa bresennol yng Nghaerdydd yw bod lleoliadau nas cynhelir a ariennir ac ysgolion Cymraeg ill dau yn darparu'r Cyfnod Sylfaen. Rhaid i leoliadau ac ysgolion Saesneg nas cynhelir a ariennir weithredu'r maes dysgu statudol 'Datblygu'r Gymraeg.'<br><br>Mae'r rhan fwyaf o leoliadau Cymraeg a ariennir yn ddarparwyr Gofal Plant hefyd, ac mae rhai yn lleoliadau Dechrau'n Deg hefyd.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn symud o'r lleoliadau nas cynhelir i'w hysgol gynradd Gymraeg leol.<br><br>Mae'r AALI yn monitro'r broses o drosglwyddo disgyblion o'r Cyfnod Sylfaen i CA2 yn ofalus. Y gyfradd drosglwyddo ym mlynyddoedd academaidd 2012/13 - 2013/14 oedd 99%. Mae'r cyfnod 2014-2015 yn dynodi cyfradd drosglwyddo gyfartalog o 99%.<br><br>Mae'r AALI hefyd yn monitro'r broses o drosglwyddo disgyblion o CA2 i CA3 yn ofalus. Y gyfradd drosglwyddo o'r blynyddoedd academaidd 2012/13 - 2013/14 oedd 99%. Mae'r cyfnod 2014-2015 yn awgrymu cyfradd drosglwyddo gyfartalog o 97%.<br><br>Prin iawn yw'r disgyblion sy'n gadael rhwng CA3 a CA4 mewn ysgolion uwchradd Cymraeg, gyda chyfradd drosglwyddo o bron 100%. | **TARGED 5:** Cynnal cyfartaledd cynyddol uwch na 97% ar gyfer y gyfradd sy'n trosglwyddo trwy'r Cyfnodau Allweddol erbyn mis Medi 2017. | **Cynnydd:**<br><br>Mae'r ffigur ar gyfer 2015 yn dangos cyfradd drosglwyddo o 99% o'r Cyfnod Sylfaen i CA2, sydd yn unol â'r targed.<br><br>Mae hefyd yn dangos cyfradd drosglwyddo o 97% rhwng CA2 a CA3 a chyfradd drosglwyddo o 100% o CA3 i CA4. Mae'r ddwy ar y llwybr cywir i fwrw'r targed. |

DRAFT

<table>
<tr><th colspan="4">Canlyniad 3: Mwy o ddysgwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg<br>Canlyniad 4: Mwy o ddysgwyr 16-19 oed yn astudio pynciau yn Gymraeg mewn ysgolion, colegau a dysgu yn y gweithle</th></tr>
<tr><th>A. Amcan</th><th>B Y Sefyllfa bresennol</th><th>C. Targedau</th><th>D. Cynnydd</th></tr>
<tr>
<td>3:4.1<br><br>Cynyddu canran y dysgwyr 14-16 oed sy’n astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg</td>
<td>Y Sefyllfa Bresennol
<table>
<tr><th>Dyddiad *</th><th>Blwyddyn Academaidd</th><th>Nifer ar y Gofrestr ym Mlwydd yn 11</th><th>Niferoedd Disgyblion Cyfrwng Cymraeg</th><th>Canran Disgyblion Cyfrwng Cymraeg</th></tr>
<tr><td>Ionawr 2014 (Nifer y Gofrestr)</td><td>2013/14</td><td>3,514</td><td>387</td><td>11.0%</td></tr>
<tr><td>Ionawr 2015 (Nifer y Gofrestr)</td><td>2014/15</td><td>3,305</td><td>383</td><td>11.6%</td></tr>
<tr><td>Ionawr 2016 (Targed)</td><td>2015/16</td><td>3,302</td><td>366</td><td>11.1%</td></tr>
<tr><td>Ionawr 2017 (Targed)</td><td>2016/17</td><td>3,288</td><td>386</td><td>11.7%</td></tr>
</table>
* Mae mis Ionawr yn cael ei ddefnyddio i fesur y data gan ei fod hanner ffordd drwy’r flwyddyn academaidd.</td>
<td>TARGED 6: Cynyddu canran y dysgwyr Blwyddyn 11 sy’n astudio 5 neu fwy o bynciau trwy gyfwng y Gymraeg i 11.7% erbyn mis Mawrth 2017.</td>
<td>Ym mis Ionawr 2014 roedd 11.0% o ddisgyblion blwyddyn 11 yn astudio 5 neu fwy o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg ac ym mis Ionawr 2015 roedd 11.6% o ddisgyblion ym mlwyddyn 11 yn astudio 5 neu fwy o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg; cynnydd o 0.6%. Fodd bynnag, mae’r niferoedd wedi lleihau. Mae’r amrywiadau gan fod y ffigurau Nifer ar y Gofrestr yn is ar y cyfan o ganlyniad i’r niferoedd cynradd is o 2005/06.</td>
</tr>
</table>

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Erbyn 2017, rydyn ni'n disgwyl gweld cynnydd cyffredinol yn nifer y disgyblion ym mlwyddyn 11 sy'n astudio 5 neu fwy o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda mân amrywiadau drwy'r blynyddoedd. Mae'r Cyngor yn disgwyl gweld cynnydd yn nifer y disgyblion ym mlwyddyn 11 sy'n astudio 5 neu fwy o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yn y dyfodol, wrth i'r niferoedd uwch o ddisgyblion o'r sector cynradd symud i'r sector uwchradd. | | |
| **3:4.2**<br><br>**Sicrhau bod darpariaeth i ddysgwyr 14-16 yn cydymffurfio â Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009** | Ym mlwyddyn academaidd 2015-16 mae Consortiwm Canolbarth y De yn rheoli Grant y Gymraeg mewn Addysg, ac mae'r grant 14-19 yn rhan o hwn. Oherwydd cymhlethdod y cydweithredu 14-19 yn CA4 penderfynodd CCD gyhoeddi elfen 14-19 Grant y Gymraeg mewn Addysg yn unol â dull y grant rhanbarthol y flwyddyn flaenorol. Ar ôl caniatáu ar gyfer unrhyw ymrwymiadau cydweithredol, dirprwywyd y balansau i ysgolion. Mae'r manylion fel a ganlyn ar gyfer ysgolion Cyfrwng Cymraeg:<br><br>Gwariant 14-19 tymor yr haf 2015 = £40,863, y mae 55% yn dod o'r grant (£22,475 neu £11,237 fesul ysgol); mae'r 45% sy'n weddill yn cael ei ariannu o gyllideb refeniw'r ysgol ei hun.<br><br>Y balansau Cyfrwng Cymraeg a ddirprwyir o elfen 14-19 2015-16 Grant y Gymraeg mewn Addysg yw £34,800 neu 11.4% o'r balans (Bro Edern £3,900; Glantaf £15,900, Plasmawr £15,000)<br><br>Ar gyfer ysgolion Cyfrwng Cymraeg roedd 2 newid sylweddol, sef gostyngiad o 5% yn y grant cyffredinol a dileu'r Grant Dwyieithog penodol. Deilliodd yr ail grant hwn o Grant y Gymraeg mewn Addysg ac fe'i trosglwyddwyd i 14-19. O 2015-16 mae wedi'i gadw yn y grant Cymraeg a dylai ysgolion Cyfrwng Cymraeg weld cynnydd yn y maes grant hwn, gan wneud iawn am golli'r Grant Dwyieithog. | **Dd/B** | **Cynnydd:**<br><br>Yn 2015 bodlonodd y tair ysgol uwchradd Gymraeg y Mesur Dysgu a Sgiliau ar gyfer CA4. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **3:4.3**<br><br>**Cynyddu canran y dysgwyr 16-19 oed sy'n astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion** | (a) Yn seiliedig ar archwiliad Hydref 2015 o Gynlluniau Ardal Leol ar gyfer LIC, mae darpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn cyfrif am 16.3% o'r Cynlluniau Ardal Leol a ddarparwyd mewn chweched dosbarthiadau.<br><br>(b) Dd/B<br><br>• Ar gyfartaledd ceir cyfradd gadw uwch mewn addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg o gymharu ag addysg Saesneg.<br>• Bu'r cyfraddau cadw i'r 6ed dosbarth mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn dda ar y cyfan dros y 4 blynedd ddiwethaf, sef 73%, 77%, 74% a 68%.<br>• Y cyfraddau cadw o Flwyddyn 12 i Flwyddyn 13 oedd 87%, 95%, 89% a 92% dros yr un cyfnod<br>• Mae'r ysgolion cyfrwng Cymraeg yn darparu ystod ehangach o gyrsiau galwedigaethol Lefel 2 a 3 i gynorthwyo ystod ehangach o ddysgwyr i aros yn yr ysgol yn y 6ed dosbarth.<br><br>Mae Coleg Caerdydd a'r Fro yn mynychu cyfarfodydd y bartneriaeth cyfrwng Cymraeg 14-19 leol, fel y gellir trafod a chynllunio llwybrau dilyniant cyfrwng Cymraeg pellach.<br><br>Gwnaeth Coleg Caerdydd a'r Fro ymrwymiad pwysig yn ei Achos Trawsnewid Busnes i Lywodraeth Cymru i gynnig ystod ehangach o gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Yn sgil creu Coleg Caerdydd a'r Fro drwy uno Coleg Glan Hafren a Choleg y Barri, prin fu'r cyfleoedd i recriwtio staff newydd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Gan hynny, prin fu'r cynnydd a wnaed o | **Dd/B** | **Cynnydd:**<br><br>Bu cynnydd o 2.6% mewn darpariaeth Gymraeg fel cyfran o'r garfan o ddysgwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ran ehangu'r ddarpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg, yn enwedig mewn meysydd galwedigaethol.<br><br>Mae'r ysgolion cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd yn chwarae rhan lawn yn Fforwm Cyfrwng Cymraeg De Cymru. Gweithredodd Cyngor Caerdydd fel deiliad a chydlynydd y gyllideb yn 2011. Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr sy'n cyflawni'r swyddogaeth hon bellach yn y cyd-destun rhanbarthol. Gellir gweld manylion Fforwm Cyfrwng Cymraeg Rhanbarthol De Cymru ar gyfer 2013-14 yng Nghynllun Datblygu Rhanbarthol 14-19 Canol De Cymru a gyflwynwyd i dîm Llwybrau Dysgu 14-19 Llywodraeth Cymru dan John Pugsley. Cytunwyd ar gynllun a chyllideb 2014-15, a gellir gweld y manylion yng Nghynllun Datblygu Rhanbarthol Canol De Cymru. | | |
| **3:4.4**<br><br>**Gweithio drwy Rwydweithiau 14-19 a Fforymau Rhanbarthol 14-19 i gynnal a gwella'r ddarpariaeth Gymraeg** | • Mae'r Rhwydwaith 14-19 wedi'i sefydlu ac mae'n ariannu partneriaeth cyfrwng Cymraeg a chwricwlwm ardal leol sydd yn eu tro yn sicrhau darpariaethau cydweithredol. Mae'r Rhwydwaith yn sicrhau bod cylch rheolaidd o gyfarfodydd partneriaeth drwy'r flwyddyn, yn pennu cylch cynllunio CA4 ac ôl-16 ac yn hwyluso cyfarfodydd a dewisiadau.<br>• Mae'r trefniadau uchod yn sicrhau bod darpariaethau cyfredol yn cael eu cynnal.<br>• Mae'r cynlluniau Trawsnewid Rhwydweithiau ar gyfer Caerdydd yn cyfeirio'n benodol at wella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn enwedig ar lefel ôl-16, ac uchelgais ar ei chyfer.<br>• Mae'r Rhwydwaith yn cydweithio'n agos â darparwyr eraill i froceru a chynorthwyo datblygiadau yn y dyfodol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg.<br>• Wrth roi datblygiadau newydd ar waith, rydym yn sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael yn ein canolfannau Cwricwlwm Amgen Cyfnod 4 newydd, er enghraifft, a'r rhaglen arweinyddiaeth a ddatblygwyd gyda'r | **Dd/B** | **Cynnydd:**<br><br>Er bod y partneriaethau cydweithredol wedi gwanhau, yn enwedig yn CA4, mae partneriaethau cryf wedi parhau mewn ysgolion Cymraeg a Saesneg.<br><br>Mae mwy o bwyslais yn cael ei roi ar weithgarwch ôl-16 drwy gyfarfodydd gyda phob chweched dosbarth a'r 3 ysgol Gymraeg. Mae trefniadau trafod a chomisiynu yn cael eu paratoi i ddelio â'r |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar gyfer ein disgyblion mwyaf galluog a thalentog. | | gostyngiadau sylweddol yn y grant Ôl-16. |
| **3:4.5**<br><br>**Casglu, dadansoddi a defnyddio data ar gyfer y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg 14-19. Cynllunio ar gyfer y ddarpariaeth Gymraeg ôl-16 o fewn phartneriaethau** | • Cynllunio rhwydwaith fel y disgrifir uchod.<br>• Mae'r ysgolion a'r coleg addysg bellach yn rhan o'r bartneriaeth cyfrwng Cymraeg leol ynghyd â phartneriaid dysgu yn y gweithle<br>• Yr ysgolion sy'n cynnig y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ond ceir darpariaeth allanol mewn Awtofecaneg, Trin Gwallt ac Adeiladu.<br>Mae'r darpariaethau hyn yn tueddu i fod yn ddwyieithog yn hytrach na'n rhai cyfrwng Cymraeg<br>• Mae'n rhaid i bob ysgol cyfrwng Cymraeg a'r bartneriaeth cyfrwng Cymraeg gyflwyno cynlluniau cwricwlwm a chyllideb flynyddol a defnyddio cyfleuster ar-lein Gyrfa Cymru i gofnodi'r ddarpariaeth CA4 ac ôl-16.<br>• Yn unol â'r system Cynllunio ac Ariannu ôl-16 newydd, mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio gydag ysgolion unigol a phartneriaethau i gynllunio ystod a nifer y dysgwyr yn Rhaglenni'r Meysydd Dysgu.<br>Caiff ehangder ac ansawdd y ddarpariaeth eu monitro, yn ogystal ag effeithlonrwydd cyflawni'r ddarpariaeth.<br>• Mae ACT, sef y prif ddarparwr dysgu seiliedig ar waith, wedi recriwtio tiwtoriaid cyfrwng Cymraeg ac yn gallu cynnig cyrsiau darpariaeth amgen drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>Mae ACT yn parhau i ddatblygu trefniadau partneriaeth gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd. | **Dd/B** | **Cynnydd:**<br><br>Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, bu lefelau cyson uchel o ddarpariaeth gwerth ychwanegol, sy'n rhoi ysgolion cyfrwng Cymraeg ymysg y 25% gorau o ran perfformiad yng Nghymru a Lloegr. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Mae Cyngor Caerdydd wedi cyflwyno'r system data gwerth ychwanegol Alps ym mhob lleoliad chweched dosbarth, gan gynnwys rhai cyfrwng Cymraeg.<br>Mae hyn yn galluogi dadansoddiad lefel darparwr a defnyddiwr o ddarpariaeth gwerth ychwanegol.<br>• Ystyrir yr Ansawdd Addysgu a Dysgu mewn darpariaeth Gymraeg ôl-16 yn rhagorol.<br><br>Dyrannwyd gwerth "cynnydd" o £266,335 i Gaerdydd ar gyfer darpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r ysgolion o ran sut y caiff yr adnoddau hyn eu defnyddio. Ni fydd y cymorth ar gyfer y ddarpariaeth ôl-16 a gafodd yr ysgolion cyfrwng Cymraeg o'r grant 14-19 yn gymwys mwyach yn 2014-15, a bydd rhaid talu'r costau hyn o'r dyraniad ôl-16.<br><br>. | | |

DRAFT

| Canlyniad 5: Mwy o ddysgwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg | | | |
|---|---|---|---|
| **A. Amcan** | **B Y Sefyllfa bresennol** | **C. Targedau** | **D. Cynnydd** |
| **5.1**<br><br>**Gwella'r ddarpariaeth i fynd i'r afael â llythrennedd yn Gymraeg** | Mae gwasanaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Plant yn cynnig cyrsiau ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau gofal plant.<br><br>Mae Gwasanaethau Cymorth Busnes y Strategaeth Gofal Plant yn cynnig adnoddau Cymraeg penodol ar gyfer lleoliadau gofal plant.<br><br>Dyfarnodd Llywodraeth Cymru gontract 2013 yr Adran Addysg a Sgiliau, sydd werth £3 miliwn, i Mudiad Meithrin dros dair blynedd ar gyfer lleoliadau cyfrwng Cymraeg ledled Cymru, gyda chymorth i'r hyfforddiant *Cam Wrth Gam* ar gyfer lleoliadau sydd â lleoedd addysg meithrin a brynwyd.<br><br>Nodwyd siaradwyr Cymraeg rhugl sydd â chymwysterau cenedlaethol cyfredol gan fod diffyg sgiliau ar lefel leol a chenedlaethol.<br><br>Cafodd Cylch Meithrin yng Nghaerdydd broblemau sylweddol o ran recriwtio, gan mai prin oedd y staff a oedd yn siaradwyr Cymraeg rhugl ac yn meddu ar y cymwysterau gofal plant perthnasol.<br><br>**<u>Perfformiad Cyfredol</u>**<br><br>Mae codi safonau llythrennedd yn y Gymraeg wrth wraidd strategaeth iaith, llythrennedd a chyfathrebu ddwyieithog Caerdydd. Mae'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg wedi tyfu'n ddiwrthdro yng Nghaerdydd, ac mae'n parhau i wneud hynny bob blwyddyn. Ers mis Medi 2010 mae 17 o ysgolion cynradd | **Dd/B** | Mae cymorth gwella ysgolion bellach yn cael ei gynnig i ysgolion ar draws rhanbarth CCD yn seiliedig ar fodel cymorth ysgol-i-ysgol. Hefyd, mae Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg ac Ymgynghorwyr Cymwys am Oes yn cynnig cymorth ychwanegol.<br><br>Mae Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd wedi'i datblygu fel un o dair ysgol hyb Gymraeg ac mae'n datblygu rhaglenni dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon ac arweinwyr.<br><br>Mae Ysgol Uwchradd Caerdydd wedi'i sefydlu fel ysgol hyb ail iaith ac mae'n cynnig rhaglen helaeth o ddigwyddiadau. |

DRAFT

Cymraeg yn y ddinas. Daw mwy na 85% o'r disgyblion o gartrefi di-Gymraeg, gyda'r ganran hon yn codi i 100% mewn rhai rhannau o'r ddinas. Mae'r awdurdod wedi datblygu amrywiaeth o strategaethau i wella llythrennedd Cymraeg disgyblion. Mae'r strategaethau hyn yn cynnwys y canlynol:

- mabwysiadu dull gweithredu â ffocws o ran hyfforddiant llythrennedd i bob ymarferydd;
- cynnig ymyriadau a dargedwyd i ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 sy'n tangyflawni o ran darllen ac ysgrifennu;
- datblygu deunyddiau ac adnoddau enghreifftiol er mwyn rhoi arweiniad i ysgolion ar gynllunio, addysgu ac asesu iaith a llythrennedd yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.
- targedu ysgolion sydd â'r mwyaf i'w wneud er mwyn codi safonau llythrennedd, gan gynnwys yr ysgolion a sefydlwyd yn fwyaf diweddar gan yr awdurdod;
- rhoi cymorth a hyfforddiant parhaus ar strategaethau ymyrryd ADY yr awdurdod drwy ddatblygu STARS Cymraeg, POPAT, Sioni'n Siarad, Dyfal Donc a SAIL Cymraeg ymhellach.

Mae cymorth gwella ysgolion bellach yn cael ei gynnig i ysgolion ar draws rhanbarth CCD yn seiliedig ar fodel cymorth ysgol-i-ysgol.
Mae tair ysgol hyb Gymraeg wedi'u sefydlu (Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd (Caerdydd), Ysgol Gynradd Gymraeg Cynwyd Sant (Pen-y-bont ar Ogwr), Partneriaeth Bro Morgannwg (Bro Morgannwg)). Mae'r rhain yn datblygu rhaglenni dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon ac arweinwyr ar draws y system. Ar hyn o bryd maent yn cynnig cymorth i ysgolion eraill gyda'r nod o wella addysgu a dysgu ac arferion arwain; mae eu rhaglenni wedi'u dylunio i ymateb i anghenion ymarferwyr/ ysgolion.

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | At hynny, mae dau Swyddog y Gymraeg mewn Addysg (SGA) yn gweithio mewn ysgolion cynradd Cymraeg; mae Ymgynghorydd Cymraeg Cymwys am Oes (athro uwchradd ar secondiad) yn ei swydd o fewn y consortiwm ac yn gweithio gyda'r sector Cymraeg uwchradd yn cynnig cymorth ar gyfer y manylebau TGAU newydd ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf. Caiff Llythrennedd Cymraeg hefyd ei gefnogi.<br><br>Mae tair ysgol hyb Cymraeg ail iaith uwchradd hefyd wedi'u sefydlu, sef Ysgol Uwchradd Caerdydd (Caerdydd), Ysgol Gyfun Treorci (RhCT) ac Ysgol Gyfun y Bont-faen (Bro Morgannwg); mae'r rhain yn cynnig rhaglen eang o ddigwyddiadau wedi'u hanelu at ymarferwyr Cymraeg ail iaith uwchradd.<br><br>At hynny, mae wyth Swyddog y Gymraeg mewn Addysg yn gweithio mewn ysgolion Saesneg yn cefnogi ymarferwyr i hyrwyddo safonau addysgu a dysgu rhagorol a llythrennedd Cymraeg ail iaith.<br><br>Ceir gwybodaeth am y rhaglen ddigwyddiadau sydd wedi'i chynllunio o fewn ysgolion hyb Cymraeg a'r hybiau Cymraeg ail iaith ar wefan Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (DecDatblygu). | | |
| **5.2**<br><br>**Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Iaith Gyntaf** | **<u>Perfformiad Cyfredol</u>**<br><br>Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni o leiaf Ganlyniad 5 y Cyfnod Sylfaen o ran Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn parhau i wella. Mae Caerdydd bellach yn perfformio'n well na chyfartaledd Cymru. Dangosir hyn yn y tabl dros y dudalen. | **TARGEDAU DROS Y DUDALEN** | **Cynnydd:**<br><br>Ar y cyfan mae Caerdydd wedi rhagori ar y targedau a osodwyd ar gyfer 2017 ac yn |

Ffig. I (CS LICC C5+)

| | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|
| Caerdydd | 87% | 90% | 93% |
| Cymru | 87% | 90% | 91% |

Mae Caerdydd felly eisoes wedi rhagori ar ei tharged gwreiddiol ar gyfer 2017 a amlinellwyd yn ei chynllun yn 2014 (90% o ddysgwyr yn cyflawni Canlyniad 5 y Cyfnod Sylfaen mewn Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg erbyn Mawrth 2017). Mae CCD wrthi'n dadansoddi'r data Cyfnod Sylfaen diweddaraf a bydd yn ystyried targedau Awdurdod Lleol rhanbarthol ac unigol o ystyried y sefyllfa bresennol. Mae'r consortiwm a'i awdurdodau lleol cyfansoddol yn benderfynol o osod targedau cadarn ond heriol ar gyfer y cyfnod i ddod. Caiff y rhain eu hystyried dros yr wythnosau nesaf a'u cyfleu i bartneriaid ddechrau Rhagfyr. Bydd hyn yn caniatáu partneriaid i ddadansoddi'r targedau a herio unrhyw dargedau nad ydynt yn ymddangos yn ddigon heriol ar lefel yr ALI/Consortiwm.

Nodir canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n cyflawni o leiaf Lefel 4 mewn asesiad athro yn y Gymraeg yn y tabl isod. Am y tair blynedd ddiwethaf, mae canlyniadau'r ALI wedi bod yn gyson uwch na chyfartaleddau cenedlaethol; mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi gweld cynnydd sylweddol yng nghanlyniadau Caerdydd.

Ffig. ii (CA2 Cym L4+)

| | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|

**TARGED 7 -** 90% o ddysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn cyrraedd Canlyniad 5 y Cyfnod Sylfaen mewn Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu mewn ysgolion Cymraeg erbyn mis Mawrth 2017.

**TARGED 8 -** 90% o ddysgwyr Cyfnod Allweddol 2 yn cyrraedd o leiaf lefel 4 mewn Asesiad Athro erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 erbyn mis Mawrth 2017.

perfformio'n well na Chyfartaledd Cymru.

**CYNNYDD TARGED 7 -** Cyfnod Sylfaen – Yn 2015 cyflawnodd 93% Ganlyniad 5, felly rhagorwyd ar darged 2017 a Chyfartaledd Cymru.

**CYNNYDD TARGED 8** – Cyfnod Allweddol 2 – Yn 2015 cyflawnodd 94% lefel 4 CA2, felly rhagorwyd ar darged 2017 a Chyfartaledd Cymru.

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| Caerdydd | 90% | 90% | 94% |
| Cymru | 87% | 88% | 91% |

Mae canlyniadau CA3 hefyd yn dangos cynnydd cadarnhaol:

Ffig. iii (CA3 Cym L5+)

| | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|
| | **L5+** | **L5+** | **L5+** |
| Caerdydd | 88% | 94% | 93% |
| Cymru | 88% | 90% | 91% |

Mae Caerdydd felly eisoes wedi rhagori ar ei tharged gwreiddiol ar gyfer 2017 a amlinellwyd yn ei chynllun yn 2014 (92% o ddysgwyr yn cyflawni o leiaf lefel 5 mewn asesiad athro yn y Gymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 erbyn Mawrth 2017). Mae CCD wrthi'n dadansoddi'r data diweddaraf a bydd yn ystyried targedau Awdurdod Lleol rhanbarthol ac unigol o ystyried y sefyllfa bresennol. Mae'r consortiwm a'i awdurdodau lleol cyfansoddol yn benderfynol o osod targedau cadarn ond heriol ar gyfer y cyfnod i ddod. Caiff y rhain eu hystyried dros yr wythnosau nesaf a'u cyfleu i bartneriaid ddechrau Rhagfyr. Bydd hyn yn caniatáu partneriaid i ddadansoddi'r targedau a herio unrhyw dargedau nad ydynt yn ymddangos yn ddigon heriol ar lefel yr ALI/Consortiwm.

Mae canran yr ysgolion sy'n cyflawni A*-C mewn Cymraeg iaith gyntaf yng Nghyfnod Allweddol 4 hefyd yn gwella, er bod y gwelliant yn arafach yma:

Ffig. iv (CA4 A*-C Cymraeg Iaith Gyntaf)

**TARGED 9 -** 92% o ddysgwyr Cyfnod Allweddol 3 yn cyrraedd o leiaf lefel 5 mewn Asesiad Athro erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 3 erbyn mis Mawrth 2017.

**CYNNYDD TARGED 9 –** Cyfnod Allweddol 3 – Yn 2015 cyflawnodd 93% lefel 5 mewn Cymraeg, felly rhagorwyd ar darged 2017 a Chyfartaledd Cymru.

**TARGED 10 -** 85% o ddysgwyr Cyfnod Allweddol 4 yn cyrraedd graddau A* - C yn eu TGAU Cymraeg Iaith

**CYNNYDD TARGED 10** – Cyfnod Allweddol 4 – Sefyllfa'n gwella ar y cyfan gyda 83% yn cyflawni graddau A* i C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf ac ar y trywydd cywir i gyflawni 85% erbyn 2017. Rhagorwyd ar

DRAFT

<table>
<tr>
<td></td>
<td>
<table>
<tr><th></th><th>2013</th><th>2014</th><th>2015</th></tr>
<tr><td>Caerdydd</td><td>80%</td><td>82%</td><td>83%</td></tr>
<tr><td>Cymru</td><td>73%</td><td>74%</td><td>75%</td></tr>
</table>
Mae Caerdydd felly ar y trywydd cywir i gyflawni ei thargedu gwreiddiol ar gyfer 2017, a amlinellwyr yn ei chynllun yn 2014 (85% o ddysgwyr yn cyflawni A*-C mewn Cymraeg iaith gyntaf erbyn 2017). Mae CCD wrthi'n dadansoddi'r data diweddaraf a bydd yn ystyried targedau Awdurdod Lleol rhanbarthol ac unigol o ystyried y sefyllfa bresennol. Mae'r consortiwm a'i awdurdodau lleol cyfansoddol yn benderfynol o osod targedau cadarn ond heriol ar gyfer y cyfnod i ddod. Caiff y rhain eu hystyried dros yr wythnosau nesaf a'u cyfleu i bartneriaid ddechrau Rhagfyr. Bydd hyn yn caniatáu partneriaid i ddadansoddi'r targedau a herio unrhyw dargedau nad ydynt yn ymddangos yn ddigon heriol ar lefel yr ALI/Consortiwm.
Er mwyn cefnogi gwelliant parhaus, mae CCD, ar hyn o bryd, ochr yn ochr â'r modelau gwella ysgol-i-ysgol hyb, yn cefnogi dau Swyddog y Gymraeg mewn Addysg i gynnig cymorth i fodloni anghenion y sector cynradd a phontio. Mae cyfarfodydd hanner tymor gyda Chynghorwyr Herio yn cydnabod yr ysgolion y mae angen cymorth arnynt mewn ymateb i wybodaeth categoreiddio ysgolion a data arall. Mae athrawon unigol yn cael cefnogaeth hefyd.
<u>Camau gweithredu a gynlluniwyd</u>
</td>
<td>Gyntaf erbyn mis Mawrth 2017.</td>
<td>gyfartaledd Cymru o 75% yn 2015.</td>
</tr>
</table>

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Bydd Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yn y cyfnod cynradd ac uwchradd yn parhau i weithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg yr awdurdod i gynorthwyo'r gwaith o wella safonau Cymraeg a llythrennedd ar draws y cwricwlwm.<br><br>Bydd rhaglen hyfforddiant staff gynhwysfawr ar gael i ysgolion drwy Rwydwaith Dysgu ac Arloesi Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De ar gyfer Ysgolion (LiNKS) i'w galluogi i gyflwyno rhaglenni astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol, er mwyn ymateb i Fframwaith Llythrennedd Cymru a mentrau eraill a hyrwyddwyd gan Lywodraeth Cymru i wella safonau.<br><br>Bydd gwasanaeth gwella ysgolion yr Awdurdod Lleol a Gwasanaeth Addysg ar y Cyd y Consortiwm yn parhau i fonitro safonau ac ansawdd y ddarpariaeth drwy ddadansoddi data ysgolion, data cymharol, adroddiadau arolygu Estyn a rhaglen adolygu ysgolion ac adrannau yr Awdurdod Lleol.<br><br>Bydd rheolwr rhaglen Gymraeg a Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg Gwasanaeth Addysg ar y Cyd y Consortiwm yn sicrhau bod dilyniant ieithyddol rhwng y camau allweddol cynradd i alluogi disgyblion a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg i feddu ar y sgiliau Cymraeg gofynnol i gael mynediad i'r cwricwlwm ar draws y Cyfnodau Allweddol.<br><br>Bydd ysgolion Cymraeg yn parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg drwy gydol y cyfnod cynradd a sgiliau Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 2 drwy ddefnyddio asesu i lywio dysgu, pennu targedau heriol a monitro a gwerthuso safonau ac ansawdd y ddarpariaeth. | | |
| **5.3** | **<u>Perfformiad Cyfredol</u>** | | **Cynnydd:** Mae gwelliant sylweddol wedi bod mewn darpariaeth a |

DRAFT

<table>
<tr>
<td>Gwella’r ddarpariaeth a safonau Cymraeg Ail Iaith</td>
<td>
Mae canran y dysgwyr sydd wedi cyrraedd o leiaf lefel 4 yn yr asesiad athro mewn Cymraeg ail iaith erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 wedi cynyddu’n sylweddol dros y tair blynedd ddiwethaf, ar lefel leol a chenedlaethol. Fodd bynnag, bu cyfradd y cynnydd yn uwch yn genedlaethol nag yn ysgolion Caerdydd.
Ffig. v  (CA2 L4+ Cymraeg Ail Iaith)
<table>
<tr><th></th><th>2013</th><th>2014</th><th>2015</th><th>Targed 2017</th></tr>
<tr><td>Caerdydd</td><td>67%</td><td>74%</td><td>74%</td><td>70%</td></tr>
<tr><td>Cymru</td><td>68%</td><td>73%</td><td>76%</td><td>70%</td></tr>
</table>
Mae Caerdydd felly eisoes wedi rhagori ar ei tharged gwreiddiol ar gyfer 2017 a amlinellwyd yn ei chynllun yn 2014 (70% o ddysgwyr yn cyrraedd o leiaf lefel 4 yn yr asesiad athro mewn Cymraeg ail iaith erbyn Mawrth 2017). Mae CCD wrthi’n dadansoddi’r data diweddaraf a bydd yn ystyried targedau Awdurdod Lleol rhanbarthol ac unigol o ystyried y sefyllfa bresennol. Mae’r consortiwm a’i awdurdodau lleol cyfansoddol yn benderfynol o osod targedau cadarn ond heriol ar gyfer y cyfnod i ddod. Caiff y rhain eu hystyried dros yr wythnosau nesaf a’u cyfleu i bartneriaid ddechrau Rhagfyr. Bydd hyn yn caniatáu partneriaid i ddadansoddi’r targedau a herio unrhyw dargedau nad ydynt yn ymddangos yn ddigon heriol ar lefel yr ALl/Consortiwm.
Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mae canran y dysgwyr sy’n cyrraedd o leiaf Lefel 5 yn yr asesiad athro mewn Cymraeg Ail Iaith wedi gwella’n sylweddol dros y tair blynedd ddiwethaf, er bod cyfradd y gwelliant yng Nghaerdydd ychydig yn is na’r cyfartaledd cenedlaethol.
Ffig. vi  (CA3 L5+ Cymraeg Ail Iaith)
</td>
<td>TARGED 11 - Cyfnod Allweddol 2 - 70% o ddysgwyr yn cyrraedd o leiaf lefel 4 erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 erbyn mis Mawrth 2017.</td>
<td>
safonau Cymraeg Ail Iaith dros y tair blynedd ddiwethaf.
CYNNYDD TARGED 11 – Cyfnod Allweddol 2 – Yn 2015 cyflawnodd 74% Lefel 4, gan ragori ar darged 2017.
CYNNYDD TARGED 12 – Cyfnod Allweddol 3 – Yn 2015 cyflawnodd
</td>
</tr>
</table>

DRAFT

| | 2013 | 2014 | 2015 | Targed 2017 |
|---|---|---|---|---|
| **Caerdydd** | 73% | 77% | 80% | 75% |
| **Cymru** | 73% | 78% | 81% | 75% |

Mae Caerdydd eisoes wedi rhagori ar ei tharged gwreiddiol ar gyfer 2017 a amlinellwyd yn ei chynllun yn 2014 (75% o ddysgwyr yn cyflawni o leiaf lefel 5 mewn asesiad athro ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 erbyn Mawrth 2017). Mae CCD wrthi'n dadansoddi'r data diweddaraf a bydd yn ystyried targedau Awdurdod Lleol rhanbarthol ac unigol o ystyried y sefyllfa bresennol. Mae'r consortiwm a'i awdurdodau lleol cyfansoddol yn benderfynol o osod targedau cadarn ond heriol ar gyfer y cyfnod i ddod. Caiff y rhain eu hystyried dros yr wythnosau nesaf a'u cyfleu i bartneriaid ddechrau Rhagfyr. Bydd hyn yn caniatáu partneriaid i ddadansoddi'r targedau a herio unrhyw dargedau nad ydynt yn ymddangos yn ddigon heriol ar lefel yr ALI/Consortiwm.

Amlinellir cyflawniadau dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 yn y cwrs TGAU Cymraeg Ail Iaith yn y tabl isod:

**Ffig. vii (CA4 A*-C TGAU Cwrs Llawn Cymraeg Ail Iaith)**

| | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|
| **Caerdydd** | 75% | 74% | 75% |
| **Cymru** | 77% | 78% | Dd/B |

**TARGED 12** - Cyfnod Allweddol 3 - 75% o ddysgwyr yn cyrraedd o leiaf lefel 5 erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 3 erbyn mis Mawrth 2017.

80% Lefel 5+, gan ragori ar darged 2017.

**TARGED 13 -** Cynyddu nifer y disgyblion sy'n dilyn cwrs TGAU llawn Cymraeg Ail Iaith ac yn cael graddau o A* i C i 77% erbyn mis Medi 2017.

**CYNNYDD TARGED 13** – Yn 2015 cynyddodd nifer y disgyblion a gyflawnodd A* i C mewn cwrs llawn TGAU Cymraeg Ail Iaith i 75%. Er bod hon yn ganran dda iawn, gyda chymorth ychwanegol rhagwelir y gallai'r targed gael ei gynyddu gan 2% arall i 77% erbyn 2017.

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Targed CCD o hyd yw cynyddu nifer y disgyblion sy’n dilyn TGAU Cymraeg Ail Iaith (cwrs llawn).<br><br>Ar lefel gynradd, mae wikispace Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg wedi’i ddisodli gan y wefan Cymraeg ail iaith.  Mae tair ysgol hyb Cymraeg ail iaith uwchradd hefyd wedi'u sefydlu, sydd bellach yn cynnig rhaglen eang o ddigwyddiadau wedi’u hanelu at ymarferwyr Cymraeg ail iaith uwchradd. Ceir manylion am ddigwyddiadau ar wefan Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (DecDatblygu).<br><br>**<u>Darpariaeth</u>:**<br><br>**Cynradd:** Mae’r wefan Cymraeg ail iaith (<u>www.cscjes.org.uk</u>) yn cynnwys continwwm iaith, cynllun gwaith a'r holl adnoddau cysylltiedig. Mae yna hefyd sianel YouTube newydd (Y Gymraeg mewn Addysg Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De) sy’n cynnwys caneuon, llyfrau’n cael eu darllen allan a phortffolio ar-lein o glipiau llefaredd a darllen ar lefelau gwahanol.<br><br>Gwahoddwyd pob ysgol gynradd i fynychu sesiynau canolog i gyflwyno’r cynllun gwaith newydd a’r wefan. Mae sesiynau hefyd wedi’u cynnal mewn ysgolion unigol ar gais.<br><br>Mae wyth Swyddog y Gymraeg mewn Addysg yn parhau i weithio o fewn y consortiwm. Mae lefel y cymorth a gynigir i ysgolion yn amrywio yn ôl anghenion yr ysgol. Mae Swyddog y Gymraeg mewn Addysg yn categoreiddio ysgolion cynradd ar sail statws Coch Melyn Gwyrdd Cymraeg ail iaith. Mae ysgolion sydd wedi’u categoreiddio fel gwyrdd neu felyn yn parhau i gael cymorth ond mae cydlynwyr Cymraeg ail iaith yn cael eu hannog i gynnal Asesiadau Gwrando ar Ddysgwyr, teithiau cerdded dysgu ac archwiliadau Helpwr Heddiw yn annibynnol. Mae Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg wedi creu taflenni asesu yn cynnwys | | |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | canllawiau y gellir eu defnyddio i farnu a chynllunio'r ffordd ymlaen. Yr ysgolion sydd wedi'u rhoi yn y categorïau melyn neu goch yw'r rheini lle mae angen ymyriad yn yr ystafell ddosbarth gan fod angen gwella safonau mewn meysydd penodol.<br><br>Mae tîm Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg wedi llunio pecyn darllen newydd i helpu ysgolion i godi safonau darllen. Mae sesiynau hyfforddi'n cael eu cynnig ym mhob cyfarfod staff, cyfarfod clwstwr ac fel un o'n digwyddiadau canolog.<br><br>**Uwchradd:** Mae'r tair ysgol hyb Cymraeg ail iaith newydd yn cynnig rhaglenni hyfforddiant (gwybodaeth ar wefan DecDatblygu Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De). Hefyd, mae cymorth pwrpasol am ddim ar gael i ysgolion uwchradd nad ydynt yn y categorïau melyn neu goch. | | |
| **5.4**<br><br>**Gwella cyfleoedd i ddysgwyr o bob oedran ymarfer eu Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth** | **<u>Perfformiad Cyfredol</u>**<br><br>Mae Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yn cydweithio'n agos ag ysgolion i gynyddu eu capasiti eu hunain i godi proffil y Gymraeg ymhellach a gwella safonau cyflawniad drwy roi'r cymorth canlynol:<br>• Dangos i athrawon sut i roi cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd yn ystod gwersi enghreifftiol mewn ysgolion cynradd;<br>• Annog cyfarwyddiadau a gorchmynion y strategaeth *Helpwr Heddiw* i'w cyfoedion drwy gyfrwng y Gymraeg;<br>• Cynnig mewnbwn i gyrsiau'r Cyfnod Sylfaen ar ddatblygu'r Gymraeg;<br>• Cynhyrchu dogfen Cymraeg Pob Dydd sy'n dangos cronfeydd ieithyddol cynyddol i'w defnyddio mewn ysgolion (copi ar wikispace); | **Dd/B** | **Cynnydd:**<br><br>Mae'r dystiolaeth gan y Sector Cynradd hyd yma yn dangos bod y mentrau fel 'Gemau Iard' a 'Helpwr Heddiw' yn cael eu croesawi a'u defnyddio o fewn y sector.<br><br>Bydd yn bwysig parhau â'r cydweithio rhwng ysgolion Cymraeg a sefydliadau partner fel Menter Caerdydd i ddatblygu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'u Cymraeg mewn |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Darparu cronfa o arwyddion Cymraeg i'w defnyddio ar arddangosfeydd (copi ar wikispace);<br>• Rhoi hyfforddiant i athrawon (cyrsiau Cymraeg dwys);<br>• Rhoi hyfforddiant i Swyddogion Cymorth Dysgu (cyrsiau Cymraeg dwys).<br>• Bydd yr holl adnoddau a gaiff eu creu gan Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg ar gael yn electronig drwy wefan Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg. Dosberthir gwybodaeth i bob ysgol ym mis Medi 2013, gan roi cyfrifoldeb i ddisgyblion<br><br>Yn ogystal, mae llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd Saesneg yn cynnig profiadau preswyl mewn lleoliadau Cymraeg eu hiaith, yn enwedig gwersylloedd yr Urdd Llangrannog a Glan Llyn. Yn ogystal â hynny mae'r awdurdod lleol wedi gweithio'n uniongyrchol ag ysgolion ac mewn partneriaeth â Menter Caerdydd er mwyn hybu ymhellach gyfleoedd i ddysgwyr o bob oedran ddatblygu eu sgiliau Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.<br><br>Mae Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yn parhau i ddatblygu defnydd anffurfiol o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae pecyn 'Gemau Iard' wedi'i ddosbarthu i bob ysgol gynradd i hyrwyddo siarad Cymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol.<br><br>Mae sesiynau hyfforddi wedi'u cynnal (ar gais ysgolion unigol) yn cynnwys staff/Cynorthwywyr Cymorth Dysgu a disgyblion sy'n arweinwyr ar yr iard chwarae.<br><br>Mae'r fenter 'Helpwr Heddiw' yn parhau i gael ei hannog mewn ysgolion cynradd Saesneg ac mae archwiliadau'n cael eu cynnal i fonitro effeithiolrwydd y fenter. Mae'r holl adnoddau 'Helpwr Heddiw' ar gael ar wefan Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg (www.cscjes.org.uk). | | sefyllfaoedd anffurfiol, o fewn a'r tu allan i'r ysgol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae clipiau o weithgareddau effeithiol 'Helpwr Heddiw' wrthi'n cael eu casglu a'u lanlwytho i sianel YouTube y Gymraeg mewn Addysg Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De.<br><br>Trefnodd Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg (Cyfrwng Cymraeg) gystadleuaeth llyfrau Cymraeg genedlaethol (Y Cwis Llyfrau), a feirniadwyd ar lefel ranbarthol. Rhoddwyd adborth i ysgolion.<br><br>**<u>Camau gweithredu a gynlluniwyd</u>**<br><br>Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i roi cymorth i amrywiaeth o fentrau a darparwyr, gan gynnwys Menter Caerdydd, i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth a chynyddu'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith disgyblion.<br><br>Cynigir hyfforddiant penodol sydd â'r nod o gynyddu cyfleoedd i ddysgwyr o bob oedran ymarfer eu Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth fel rhan o raglen Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De. Caiff anghenion hyfforddiant eu nodi gan Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg, a rhoddir adborth ar hyn i Wasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De. | | |
| **5.5**<br><br>**Cynyddu nifer yr ymgeiswyr Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith Safon Uwch fel canran o nifer yr** | **<u>Perfformiad Cyfredol</u>**<br><br>Yn 2015, cynyddodd nifer y dysgwyr sy'n astudio cwrs llawn TGAU Cymraeg Ail Iaith fel % o'r garfan gan gan 4% i 41%.<br><br>\| \| **2013** \| **2014** \| **2015** \| | **TARGED 14 –** Sicrhau cymaint o welliant â phosibl yng Nghyfnod Allweddol 4 trwy | **CYNNYDD TARGED 14** – Cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n cyflawni cwrs llawn TGAU |

**ymgeiswyr Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith TGAU.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Carfan** | 3,107 | 3,138 | 2,945 |
| **Mynediad** | 973 | 1,161 | 1,201 |
| **%** | 31% | 37% | 41% |

Yn 2015, cynyddodd y cyfanswm sy'n cyflawni TGAU Cymraeg Ail Iaith fel canran o TGAU Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith gan 40 o ddysgwyr ledled y Ddinas.

Fodd bynnag, yn ystod yr un cyfnod mae'r niferoedd lefelau A ac AS Cymraeg wedi bod yn lleihau dros y tair blynedd ddiwethaf o 98 yn 2013 i 72 yn 2015. Gallai'r duedd hon gael ei gwrthdroi drwy sicrhau cymaint o welliant â phosibl yn ystod CA4 i hyrwyddo parhad i lefelau A.

Tabl: Cyfanswm yr ymgeiswyr lefel A ac AS Cymraeg ac iaith Gymraeg ledled y ddinas ers 2013.

| | **2013** | **2014** | **2015** |
|---|---|---|---|
| **Lefel A** | 46 | 39 | 24 |
| **AS** | 52 | 53 | 48 |
| **Cyfanswm ymgeiswyr Lefel A ac AS** | 98 (3.8%) | 92 (3.4%) | 72 (2.6%) |
| **TGAU** | 2,568 | 2,673 | 2,730 |

godi % y disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Allweddol sy'n cwblhau cyrsiau llawn TGAU Cymraeg Ail Iaith i 43% erbyn mis Mawrth 2017.

**TARGED 15 -** Cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n mynd ymlaen i lefel AS/A i 3% (82 disgybl) o'r grŵp sy'n gorffen eu TGAU erbyn 2017.

Cymraeg Ail Iaith gan 4% **i** 41%**.**

**CYNNYDD TARGED 15** – Gostyngiad bach o lai nag 1% yn nifer y myfyrwyr lefel A ac AS yn 2015. Gellir gwrthdroi hyn erbyn 2017 drwy sicrhau cymaint o welliant â phosibl yn CA4 i hyrwyddo parhad i lefelau A.

DRAFT

| Canlyniad 6: Darpariaeth Gymraeg i ddysgwyr - Anghenion Dysgu Ychwanegol | | | |
|---|---|---|---|
| **A. Amcan** | **B Y Sefyllfa bresennol** | **C. Targedau** | **D. Cynnydd** |
| **6.1**<br><br>**Gwella'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) Gymraeg** | **<u>Nifer yr achosion o AAA/ADY yn y sector cyfrwng Cymraeg</u>**<br><br>Mae pob ysgol yng Nghaerdydd yn cynnwys disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig/Anghenion Dysgu Ychwanegol, y mae rhai ohonynt yn anghenion cymhleth iawn. Fodd bynnag, mae nifer yr achosion o ddatganiadau AAA yn is o lawer mewn addysg Gymraeg: llai nag 1% o'r boblogaeth, o gymharu ag ychydig yn llai na 3% o boblogaeth holl ysgolion Caerdydd.<br><br>**<u>Canllawiau Lleol ar ADY</u>**<br><br>Cyhoeddwyd canllawiau Caerdydd, 'Arfer Rhagorol mewn Cynhwysiant – Disgwyliadau Ysgolion', fel drafft gweithiol yn 2013.<br><br>**<u>Cymorth ysgol-i-ysgol ar Gynhwysiant</u>**<br>Mae Caerdydd yn dechrau gweithio ar sail Gymdogaethol i hwyluso cymorth cynhwysiant ysgol-i-ysgol yn well. Mae'r tri chlwstwr cyfrwng Cymraeg yn cynnwys un o'r chwe grŵp cymdogaeth. Mae yna Swyddog Cynhwysiant Partneriaeth (SCP) ar gyfer pob cymdogaeth, gan gynnwys SCP sy'n siarad Cymraeg i gefnogi'r gymdogaeth Gymraeg a ffurfio Tîm o Amgylch yr Ysgol.<br><br>Ar hyn o bryd mae'r Cyfarfod Cais Ardal Partneriaeth yn un cyfarfod ar gyfer ysgolion ledled y ddinas, heb lawer o gyfle i ysgolion ddatblygu arferion a rennir.<br><br>Bydd Cyfarfodydd Cais Ardal Partneriaeth yn gweithredu ym mhob Cymdogaeth o Ebrill 2016. | **TARGED 16 -** Cynyddu nifer y llefydd sydd ar gael mewn CAA uwchradd cyfrwng Cymraeg o 12 lle i 20 lle erbyn mis Medi 2017. | Ar y cyfan gwnaed cynnydd da, ond mae'r galw am ddarpariaeth CAA Gymraeg yn cynyddu yn y sectorau cynradd ac uwchradd.<br><br>Mae angen gwelliannau ac estyniadau i lety yn y ddwy ysgol CAA er mwyn cyrraedd y targed o 20 o leoedd erbyn Medi 2017. Mae hyn yn cael ei drafod gyda'r Tîm CTY ar hyn o bryd.<br><br>At hynny, bydd yr ALI yn ystyried opsiynau ar gyfer dod â'r CAAau i mewn i'r un clwstwr drwy drosglwyddo'r CAA gynradd i ysgol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **<u>Gwasanaethau sy'n cael eu Masnachu – Gwasanaethau Seicoleg Addysg ac Athrawon Arbenigol</u>**<br><br>Mae'r Gwasanaeth Seicoleg yn dyrannu Seicolegwyr Addysg sy'n siarad Cymraeg i bob ysgol Gymraeg, ond gellid effeithio ar y capasiti Cymraeg gan absenoldebau hirdymor (e.e. absenoldeb mamolaeth). (ON Mae'r broblem o gyflenwi yn ystod absenoldeb yn broblem sy'n effeithio ar bob ysgol, nid y sector cyfrwng Cymraeg yn unig).<br><br>Mae timau Athrawon Arbenigol yn gweithio gyda phob ysgol i gefnogi:<br>-Disgyblion ag anawsterau dysgu cymhleth mewn meithrinfeydd<br>-Plant ag anableddau, anghenion meddygol a namau ar y synhwyrau<br>- Anghenion lleferydd ac iaith<br>- Cyflyrau'r Sbectrwm Awtistig<br>- Anghenion ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol<br>- Anawsterau llythrennedd a rhifedd.<br><br>Mae pob tîm yn cwblhau asesiadau sgiliau Cymraeg rheolaidd ac yn adolygu'r capasiti Cymraeg sydd ei angen i gynnig gwasanaeth llawn yn Gymraeg.<br><br>**<u>Adnoddau ac ymyriadau</u>**<br><br>Mae hyfforddiant ac adnoddau am ymyriadau a ddatblygwyd yng Nghaerdydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg, e.e. STARS, SAIL.<br><br>Mae cynllun darllen Cymraeg wedi'i ysgrifennu a'i gyhoeddi gan y gwasanaeth Athrawon Arbenigol ac ar gael i'w brynu. Bandiau llyfrau 1-6 wedi'u cwblhau. Bydd Bandiau 7-9 yn cael eu cyhoeddi erbyn Gorffennaf 2016.<br>. | | newydd a datblygu darpariaeth Gymraeg benodol ar gyfer meithrin/lles emosiynol erbyn Medi 2016.<br><br>Y diwygiadau terfynol i 'Arfer Rhagorol' i'w cwblhau erbyn Ionawr 2016; cyhoeddwyd yn Gymraeg a Saesneg.<br><br>. |

DRAFT

Mae gwaith hefyd wedi'i wneud i gyfieithu adnoddau sy'n gysylltiedig ag ymyriadau perchnogol, megis Cysylltiadau Lleferydd ac Iaith (gyda chaniatâd y cwmni).

**<u>Partneriaeth rhieni a thîm gwaith achos AAA</u>**

Mae gan y tîm y capasiti i gynnig cymorth a chyngor i ysgolion a rhieni yn Gymraeg. Mae amrywiaeth o daflenni Gwybodaeth i Rieni wedi'u datblygu yn Gymraeg a Saesneg.

**<u>Ysgolion Arbennig</u>**

Soniodd adolygiad o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg arbenigol yn 2009 am y diffyg lleoedd ysgol arbennig Cymraeg yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, mae'r angen/galw yn isel iawn - annigonol ar gyfer ysgol bosibl.

At hynny, mae llawer o ddarpariaeth CAA mewn ysgolion Cymraeg a Saesneg sy'n gallu bodloni anghenion cymhlethaf y disgyblion. Mae llawer o ddisgyblion mewn CAAau Saesneg ag anghenion llawn mor gymhleth â'r rheini mewn ysgolion arbennig: dewis y rhiant yw penderfynu rhwng CAA ac ysgol arbennig yn y rhan fwyaf o achosion. Felly, mae parhau i ddatblygu ac atgyfnerthu'r CAAau cyfrwng Cymraeg yn ffordd realistig o sicrhau bod disgyblion ag anghenion cymhleth sy'n cael addysg Gymraeg yn cael mynediad i'r ddarpariaeth orau ar yr un sail â'u cyfoedion cyfrwng Saesneg.

**<u>CAAau Glantaf a Choed y Gof</u>**

Roedd clystyrau gwahanol yn her a atebwyd ar y cyfan. Perthynas dda iawn rhwng y ddwy CAA. Mae'r CAA uwchradd yn rhagweithiol iawn o ran gweithio gyda phob ysgol gynradd i gynllunio pontio.
Mae llety wedi'i ddatblygu yn y ddwy ysgol. Bydd angen ei

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ddatblygu ymhellach yn yr ysgol uwchradd i ganiatáu ar gyfer y twf o 12 o leoedd i 20 dros y 3 blynedd nesaf.<br><br>Anawsterau o ran datblygu llety digonol yn y CAA gynradd. Mae opsiynau'n cael eu hystyried ar gyfer trosglwyddo'r ganolfan hon i ysgol newydd yn yr ychydig flynyddoedd nesaf. Cydnabyddir bod yn rhaid sicrhau cyfleusterau ac adnoddau priodol i reoli disgyblion sy'n arddangos problemau ymddygiadol yn y sector cynradd Cymraeg, ac mae hyn yn flaenoriaeth i'r Awdurdod Lleol yn y flwyddyn i ddod.<br><br>**<u>Partneriaeth ranbarthol</u>**<br><br>Mae CCD wedi sefydlu fforwm ar gyfer arweinwyr Cynhwysiant ar draws y consortiwm. Bydd hyn yn galluogi mwy o gyfleoedd ar gyfer cydweithio a datblygu darpariaeth a rennir, gan gynnwys:<br>- adnoddau cyfieithu<br>- cymorth i ymyriadau Cymraeg<br>- adnoddau Braille Cymraeg | | |

DRAFT

| Canlyniad 7: Cynllunio’r gweithlu a Datblygiad Proffesiynol Parhaus | | | |
|---|---|---|---|
| **A. Amcan** | **B Y Sefyllfa bresennol** | **C. Targedau** | **D. Cynnydd** |
| **7.1**<br><br>**Sicrhau bod digon o ymarferwyr i ddarparu addysg Gymraeg** | Roedd 4 swydd addysgu wag mewn ysgolion cynradd Cymraeg ar ddechrau mis Medi 2015.<br><br>Nid oedd unrhyw swyddi addysgu gwag mewn ysgolion uwchradd Cymraeg ar ddechrau mis Medi 2015.<br><br>Nid oedd unrhyw swyddi gwag i addysgu Cymraeg ail iaith mewn ysgolion uwchradd Saesneg ar ddechrau mis Medi 2015.<br><br>Roedd 1 swydd wag ystafell ddosbarth i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg ar ddechrau mis Medi 2015.<br><br>**<u>Perfformiad Cyfredol</u>**<br>Mae swyddogion y Gwasanaeth Addysg, gan gydweithio’n agos â gwasanaeth Adnoddau Dynol yr ALI a Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De, yn cynorthwyo’r holl benodiadau i dîm uwch arweinwyr ein hysgolion Cymraeg. Mae cyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion yn gweithio gyda’r Awdurdod Lleol er mwyn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor wrth hysbysebu swyddi i ymarferwyr i gynorthwyo addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>**<u>Camau gweithredu a gynlluniwyd</u>**<br>Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i weithio gyda’r canlynol:<br>• Penaethiaid er mwyn sicrhau bod digon o ymarferwyr i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg; a<br>• Chyrff llywodraethu er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor wrth | **TARGED 17:** Dim swyddi gwag heb eu llenwi mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ar ddechrau Blwyddyn Academaidd 2017. | **CYNNYDD TARGED 17:** Ar hyn o bryd mae yna 5 swydd wag mewn ysgolion Cymraeg ledled y ddinas.<br><br>Bydd yr ALI yn parhau i gynnig cymorth i Gyrff Llywodraethu a monitro’r data sydd ar gael yn agos i sicrhau bod digon o ymarferwyr i ddarparu addysg Gymraeg.<br><br>Mae CCD yn cynllunio adolygiad manwl o ofynion gweithlu/ recriwtio pob ysgol, gan gynnwys ysgolion Cymraeg. Mae’n ymwybodol o anawsterau parhaus yn recriwtio i rôl pennaeth yn y sector cyfrwng Cymraeg yn benodol. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | hysbysebu swyddi ymarferwyr i gynorthwyo addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. | | |
| **7.2**<br><br>**Gwella sgiliau ieithyddol ymarferwyr**<br><br>**Gwella sgiliau methodolegol ymarferwyr** | **<u>Perfformiad Cyfredol</u>**<br><br>Fel y nodwyd yng nghanllawiau Grant y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer 2013-14, roedd disgwyl i bob consortiwm gynnal adolygiad o sgiliau Cymraeg staff addysgu yn ystod y flwyddyn fel rhan o waith y grant. Nod yr adolygiad hwn oedd casglu gwybodaeth gyson ar lefel genedlaethol er mwyn gwella trefniadau cynllunio a thargedu rhaglenni hyfforddiant a chymorth yn y dyfodol.<br><br>Roedd yr adolygiad yn cynnwys yr ymarferwyr canlynol:<br><br>• Athrawon a chynorthwywyr addysgu mewn ysgolion cynradd (cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg)<br>• Athrawon a chynorthwywyr dysgu mewn ysgolion uwchradd (dim ond ysgolion cyfrwng Cymraeg/ dwyieithog)<br><br>Paratowyd holiadur (ynghyd â disgrifiadau o lefelau sgiliau) ar gyfer yr adolygiad hwn er mwyn casglu gwybodaeth am sgiliau Cymraeg ymarferwyr yn ogystal â'u hanghenion hyfforddiant. Gofynnwyd i benaethiaid lenwi'r holiadur ar ran eu staff, gan ddyrannu pob ymarferydd i un o'r categorïau a nodwyd. Dychwelwyd holiaduron wedi'u cwblhau gan dros 90% o'r ysgolion ar draws y Consortiwm. | **Dd/B** | **Cynnydd:**<br><br>Mae cynnydd da wedi'i wneud ar y Canlyniad hwn dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae nifer o gyrsiau wedi'u cynnig gan Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg ac mae mwy wedi'u trefnu ar gyfer 2016. Mae cyrsiau sabothol a ariennir yn llawn wedi bod yn boblogaidd a disgwylir i'r rhain gael effaith ar safonau o fewn dosbarthiadau yn y flwyddyn nesaf.<br><br>Mae'r Hyb Cymraeg Uwchradd yn Ysgol Uwchradd Caerdydd wedi paratoi cyfres o raglenni i ymarferwyr Cymraeg ail iaith. Maent hefyd yn cynnig cymorth pwrpasol am |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **<u>Camau gweithredu a gynlluniwyd</u>**<br><br>**Cymraeg Ail Iaith**<br><br>Er mwyn nodi anghenion hyfforddiant methodoleg ar gyfer athrawon ysgolion Cymraeg, dylai'r ALI barhau i fonitro a gwerthuso safonau ac ansawdd y ddarpariaeth drwy ddadansoddi adroddiadau arolygu Estyn a gwybodaeth a geir drwy raglen Adolygu a Datblygu'r ALI.<br><br>Dylai'r ALI, ar y cyd â Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De, sicrhau y caiff Grant y Gymraeg mewn Addysg ei ddefnyddio'n effeithiol i sicrhau bod digon o Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg i ddarparu hyfforddiant penodol a chymorth mentora i athrawon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg er mwyn gwella'r fethodoleg. Bydd yr ALI yn gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Addysg ar y Cyd y Consortiwm er mwyn sicrhau y caiff y defnydd o grant y Gymraeg mewn Addysg ei gynllunio mewn ffordd strategol effeithiol. Bydd y dystiolaeth a gaiff ei hystyried yn cynnwys y canlynol:<br>• Adroddiadau perfformiad blynyddol ysgolion;<br>• Adroddiadau monitro ysgol gyfan a phynciau unigol;<br>• Cynlluniau hunanwerthuso, gwella a newid ysgolion;<br>• Data perfformiad y Cyfnod Sylfaen, CA2 a CA3;<br>• Adroddiadau arolygu Estyn (Awdurdodau Lleol ac Ysgolion) a chyhoeddiadau Estyn.<br><br>**Bydd Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg yn gwneud y canlynol:**<br>• gweithio mewn partneriaeth er mwyn gwella safonau dysgu ac addysgu Cymraeg (ail iaith) yn y feithrinfa Saesneg a'r | | ddim i ysgolion nad ydynt yn y categorïau melyn neu goch.<br><br>Mae gan bob ysgol hefyd fynediad i raglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus sy'n canolbwyntio ar wella safonau Cymraeg erbyn 2017.<br><br>Mae Cymwys am Oes a Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg yn cynnig gweithgorau penodol i dargedu meysydd addysgu a dysgu penodol a chreu Proffiliau Dysgu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, CA2 a CA3 yn 2016.<br><br>Disgwylir i gymorth targedig o'r fath gael effaith gadarnhaol a chodi safonau mewn Cymraeg iaith gyntaf a Chymraeg ail iaith erbyn 2017. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ysgolion cynradd ac uwchradd Saesneg yn y pum awdurdod sy’n rhan o CCD;<br>• cynnig rhaglen ag amserlen o gymorth cwricwlwm a her i’r ysgolion uchod er mwyn datblygu sgiliau ymarferwyr ymhellach a chynyddu capasiti ysgolion i ddarparu addysgu a dysgu llythrennedd cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel.<br>• cynllunio a chyflwyno rhaglen gymorth a dargedir sy’n seiliedig ar ddadansoddiad o ddata perfformiad er mwyn diwallu anghenion ysgolion â blaenoriaeth, yr Awdurdod Lleol a’r consortiwm, gan gynnwys cynorthwyo ymarferwyr sy’n gyfrifol am addysgu dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).<br>• cyfrannu fel y bo’n briodol at ddatblygu a chyflwyno rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus, gan gynnwys gwaith Cymunedau Dysgu Proffesiynol er mwyn gwella’r ddarpariaeth mewn ysgolion a chyfrannu at wella safonau.<br>• atgyfnerthu dilyniant ieithyddol ar draws y cyfnodau allweddol (Cyfnod Sylfaen / CA2 / CA3 / CA4) a rhyngddynt drwy hybu trefniadau pontio.<br>• cynnig mentora i ymarferwyr sydd wedi cwblhau cyrsiau hyfforddiant iaith y Cynllun Sabothol.<br>• cynorthwyo ysgolion i ddatblygu dibynadwyedd a dilysrwydd yr asesiad athro drwy rannu arfer da mewn gwaith cymedroli clystyrau.<br>• cynorthwyo ysgolion i hybu defnydd dysgwyr o’r Gymraeg y tu allan i’r ystafell ddosbarth.<br><br>Bydd Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yn cynnig rhaglen hyfforddiant ieithyddol helaeth i athrawon y gall ysgolion ei defnyddio drwy arian dirprwyedig o Grant y Gymraeg mewn Addysg a fydd yn cynnwys yr elfennau canlynol:<br><br>**Cymraeg ail iaith - Cynradd** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Datblygu sgiliau Cymraeg dwys / methodoleg ar gyfer ymarferwyr<br>• Cyrsiau dwys 5, 10 a 15 diwrnod a dargedir at dair lefel o allu i gynyddu nifer yr athrawon sydd â digon o wybodaeth ymarferol o'r Gymraeg i'w haddysgu fel pwnc ail iaith i ddisgyblion o'r Cyfnod Sylfaen hyd at ddiwedd Cyfnod Allweddol 2<br>• Cyrsiau dilynol i'r sawl a fynychodd y cwrs.<br><br>Y meini prawf ar gyfer targedu ysgolion i fynychu cyrsiau Cymraeg dwys:<br>• Asesiadau sylfaenol Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg<br>• Canlyniadau asesiad athro Cymraeg Ail Iaith CA2<br>• Adroddiadau arolygu Estyn<br>• Ceisiadau ysgolion unigol<br>• Cronfa ddata o sgiliau Cymraeg athrawon<br>• Rôl a chyfrifoldebau arweinydd y cwricwlwm Cymraeg Ail Iaith<br>• Asesiad o Cymraeg Ail Iaith (pecyn)<br>• Datblygu proffiliau dysgwyr Cymraeg Ail Iaith ar draws CA2/3<br>• Datblygu sgiliau dysgu Cymraeg Ail Iaith yn CA2<br>• Datblygu'r Gymraeg / dwyieithrwydd ar draws y cwricwlwm (pecyn)<br>• Datblygu'r Gymraeg / dwyieithrwydd ar gyfer Penaethiaid<br>• Defnyddio TGCh i ddatblygu Cymraeg Ail Iaith, gan gynnwys defnyddio iPad ar gyfer dysgu ac addysgu a datblygu HWB (system dysgu digidol newydd ar gyfer pob sefydliad addysg 3-19 oed yng Nghymru)<br>• Cymraeg Ail Iaith mewn ysgolion arbennig<br>• Y Pod Antur<br>• Datblygu'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth – Canolfan yr Urdd yng Nghanolfan y Mileniwm | | |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Cymraeg ail iaith - Uwchradd**<br>• Datblygu sgiliau Cymraeg ymarferwyr (gloywi iaith)<br>• Methodoleg addysgu Cymraeg ail iaith<br>• Datblygu'r Gymraeg ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu<br>• Datblygu'r Gymraeg / dwyieithrwydd ar gyfer Penaethiaid<br>• Datblygu proffiliau dysgwyr Cymraeg Ail Iaith ar draws CA2/3<br>• Defnyddio TGCh i ddatblygu'r Gymraeg, gan gynnwys defnyddio iPad ar gyfer dysgu, addysgu a datblygu HWB<br>• Datblygu'r Gymraeg / dwyieithrwydd ar draws y cwricwlwm (pecyn)<br>• Rôl a chyfrifoldebau arweinydd y cwricwlwm Cymraeg Ail Iaith<br><br>**<u>Camau gweithredu a gynlluniwyd</u>**<br><br>Er mwyn nodi anghenion hyfforddiant methodoleg ar gyfer athrawon ysgolion Cymraeg, dylai'r ALI barhau i fonitro a gwerthuso safonau ac ansawdd y ddarpariaeth drwy ddadansoddi adroddiadau arolygu Estyn a gwybodaeth a geir drwy raglen Adolygu a Datblygu'r ALI.<br>(2014-17)<br><br>Dylai'r ALI, ar y cyd â Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De, sicrhau y caiff Grant y Gymraeg mewn Addysg ei ddefnyddio'n effeithiol i sicrhau bod digon o Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg i ddarparu hyfforddiant penodol a chymorth mentora i athrawon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg er mwyn gwella'r fethodoleg. Bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De er mwyn sicrhau y | | |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | caiff y defnydd o grant y Gymraeg mewn Addysg ei gynllunio mewn ffordd strategol effeithiol. Bydd y dystiolaeth a gaiff ei hystyried yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Adroddiadau perfformiad blynyddol ysgolion;<br>• Adroddiadau monitro ysgol gyfan a phynciau unigol;<br>• Cynlluniau hunanwerthuso, gwella a newid ysgolion;<br>• Data perfformiad y Cyfnod Sylfaen, CA2 a CA3;<br>• Adroddiadau arolygu Estyn (ALI ac Ysgolion) a chyhoeddiadau Estyn.<br><br>**Bydd Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg yn gwneud y canlynol:**<br>• gweithio mewn partneriaeth er mwyn gwella safonau dysgu ac addysgu Cymraeg (iaith gyntaf) yn y feithrinfa Gymraeg a'r ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg yn y pum awdurdod sy'n rhan o CCD;<br>• cynnig rhaglen ag amserlen o gymorth cwricwlwm a her i'r ysgolion uchod er mwyn datblygu sgiliau ymarferwyr ymhellach a chynyddu capasiti ysgolion i ddarparu addysgu a dysgu llythrennedd cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel.<br>• cynllunio a chyflwyno rhaglen gymorth a dargedir sy'n seiliedig ar ddadansoddiad o ddata perfformiad er mwyn diwallu anghenion ysgolion â blaenoriaeth, yr Awdurdod Lleol a'r consortiwm, gan gynnwys cynorthwyo ymarferwyr sy'n gyfrifol am addysgu dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.<br>• cyfrannu fel y bo'n briodol at ddatblygu a chyflwyno rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus, gan gynnwys gwaith Cymunedau Dysgu Proffesiynol, er mwyn gwella methodolegau dysgu ac addysgu llythrennedd Cymraeg ar draws y cwricwlwm. | | |

DRAFT

- atgyfnerthu dilyniant ieithyddol ar draws y cyfnodau allweddol (Cyfnod Sylfaen / CA2 / CA3 / CA4) a rhyngddynt drwy hybu trefniadau pontio.
- cynorthwyo gwelliant mewn projectau trochi sy'n mynd rhagddynt (Caerdydd)
- gwella sgiliau iaith ymarferwyr cyfrwng Cymraeg a chynnig cymorth a mentora a dargedir i ymarferwyr sydd wedi cwblhau cyrsiau hyfforddiant iaith y Cynllun Sabothol.
- cynorthwyo ysgolion i ddatblygu dibynadwyedd a dilysrwydd yr asesiad athro drwy rannu arfer da mewn gwaith cymedroli clystyrau.
- cynorthwyo ysgolion i ddatblygu'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg mewn ysgolion Cymraeg a hybu defnydd disgyblion o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

**<u>Perfformiad Cyfredol</u>**

Mae Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg yn cynnig cyrsiau Cymraeg dwys deuddydd o hyd, gyda chyfle i rannu arfer rhagorol mewn ysgolion am hanner diwrnod. Trefnwyd y cyrsiau hyn ar gyfer tymor y gwanwyn a thymor yr haf 2016.

Mae Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg yn helpu i dargedu ymarferwyr (addysgu a Chynorthwywyr Cymorth Dysgu) i fynychu cynlluniau hyfforddi Sabothol LIC. Mae'r cyrsiau hyn yn cael eu hariannu'n llawn. Mae Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg yn gweithio'n agos gyda thiwtoriaid i sicrhau bod y sawl sy'n cymryd rhan yn cael hyfforddiant mewn methodoleg Cymraeg ail iaith effeithiol. Mae cynlluniau hefyd i gydweithio i fonitro effaith yr hyfforddiant ar safonau mewn dosbarthiadau.

Mae Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg yn cynnal sesiynau hyfforddi rheolaidd i staff o fewn ysgolion, gan sicrhau bod

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ymarferwyr yn ymwybodol o'r fethodoleg Cymraeg ail iaith fwyaf effeithiol. Mae llawer o adnoddau ar gael ar wefan Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg (www.cscjes.co.uk). Mewn ysgolion lle ystyrir bod angen ymyriadau yn yr ystafell ddosbarth, mae Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg yn cynllunio ac yn cyflwyno gwersi enghreifftiol, cyn defnyddio'r dull addysgu tîm, i sicrhau bod ymarferwyr yn gallu cyflwyno Cymraeg ail iaith yn effeithiol.<br><br>Ymysg y rhaglenni Cymraeg ail iaith canolog ar gyfer 2016 mae cyfarfodydd cydlynwyr a hyfforddiant darllen (gan gynnwys dosbarthu pecyn darllen sydd newydd ei greu).<br><br>Mae tri hyb uwchradd Cymraeg ail iaith wedi paratoi cyfres o raglenni ar gyfer ymarferwyr Cymraeg ail iaith yn y sector uwchradd. Mae'r rhain yn cynnwys; data, darllen, ysgrifennu, disgyblion MGTh, Asesu ar gyfer Dysgu<br><br>Hefyd, mae'r ysgolion hyb yn cynnig cymorth pwrpasol am ddim i ysgolion nad ydynt yn y categorïau melyn neu goch.<br><br>**Cymraeg Iaith Gyntaf:**<br><br>Yn ogystal â chynnig cymorth yn yr ysgol i ysgolion yn dilyn ceisiadau gan Gynghorwyr Herio, mae'r tîm Cymraeg Iaith Gyntaf wedi amlinellu raglen o waith ar gyfer 2015-2016 ar draws pob Cyfnod Allweddol.<br><br>Ar Lefel Gynradd – bydd tri gweithgor yn cael eu cynnal yn targedu'r 3 Tharged Cyrhaeddiad, yn ogystal â chymorth parhaus ar gyfer ANGau. Ni fydd unrhyw hyfforddiant canolog yn cael ei gynnal gan Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg. Bydd yr holl | | |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | arfer da yn cael ei rannu mewn cyfarfodydd clwstwr, cyfarfodydd cydlynwyr llythrennedd a phobl cyfle arall i ledaenu arfer da.<br><br>Ar Lefel Uwchradd – cynhelir gweithgorau yn canolbwyntio ar y manylebau TGAU newydd. Bydd grwpiau ffocws llai yn targedu meysydd addysgu a dysgu penodol a bydd y Cyfarfodydd Addysgu Cymwys am Oes yn arddangos arfer da mewn adrannau Cymraeg. Bydd y gwaith o greu Proffiliau Dysgu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, CA2 a CA3 yn cael ei gefnogi gan y Tîm Cymraeg Iaith Gyntaf yn 2016.<br><br>Bydd cymorth pellach ar gyfer Llythrennedd Cymraeg yn cael ei ddatblygu yn 2015-2016 gan ymateb i anghenion yr ysgolion a arweinir gan ymgynghorwyr Cymwys am Oes a Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg.<br><br>Bydd yr Ymgynghorydd Cymwys am Oes yn cydlynu a monitro pob digwyddiad.<br><br>Bydd yr ymgynghorydd Cymwys am Oes hefyd yn cydlynu darpariaeth Gymraeg a Llythrennedd Cymraeg yr Hybiau Cyfrwng Cymraeg.<br><br>**<u>Camau gweithredu a gynlluniwyd</u>**<br><br>Dylai'r ALl weithio mewn partneriaeth ag ALlau eraill er mwyn sicrhau bod rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yn cynnwys ystod briodol o weithgareddau hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar wella safonau darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando Cymraeg ar draws y cwricwlwm. | | |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dylai'r ALI gydweithredu â'i bartneriaid yng Nghonsortiwm Canolbarth y De i gynorthwyo datblygiad llythrennedd Cymraeg, mewn cyd-destunau iaith gyntaf ac ail iaith, yn unol â pholisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru sy'n datblygu ar gyfer gwella safonau llythrennedd. Caiff y gwaith hwn ei arwain a'i gydlynu gan swyddog strategol arweiniol Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De ar gyfer y Gymraeg. Bydd yr ALI a Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yn sicrhau y caiff cymorth ei dargedu at yr ysgolion hynny lle ceir yr anghenion mwyaf o ran safonau disgyblion a sgiliau athrawon.<br><br>Mae gwasanaeth LiNKS Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yn cynnwys cynnig cymorth ychwanegol drwy wasanaethau cynghori, ymgynghori a hyfforddiant y gall ysgolion eu prynu gan ddefnyddio'u hadnoddau dirprwyedig eu hunain, yn unol â'r anghenion a nodwyd yn y cynlluniau gwella.<br><br>Bydd yr ALI a Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yn parhau i ddatblygu'r gwasanaeth cyfredol er mwyn sicrhau y gall wneud y canlynol:<br>• cynorthwyo ysgolion yn unol ag anghenion unigol;<br>• rhoi cyngor i ysgolion unigol drwy gynnal trafodaethau ag aelodau allweddol o staff ar strategaethau i wella safonau Cymraeg ail iaith a sgiliau llythrennedd;<br>• canolbwyntio ar hyfforddiant a mentora yn yr ystafell ddosbarth e.e. drwy wersi enghreifftiol ac addysgu mewn timau;<br>• mentora ymarferwyr ystafell ddosbarth;<br>• monitro'r ddarpariaeth ac adolygu cynnydd disgyblion;<br>• gwerthuso'r ddarpariaeth mewn gwersi a chynnig cyngor a chymorth;<br>• cyflwyno adroddiadau ar safonau disgyblion a darpariaeth ysgolion. | | |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Bydd darpariaeth Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De hefyd yn sicrhau y gellir targedu cymorth ychwanegol yn briodol, ar sail y canlynol:<br>• safonau cyrhaeddiad disgyblion;<br>• sgiliau iaith ymarferwyr ystafell ddosbarth;<br>• presenoldeb Athrawon Newydd Gymhwyso (ANGau) ac arweinwyr pwnc newydd;<br>• effeithiolrwydd cynllunio'r ddarpariaeth Gymraeg;<br>• Pontio CA2-3 a rhannu data.<br><br>Bydd swyddog arweiniol y Gymraeg Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yn monitro a gwerthuso'r cymorth a roddir gan Dîm y Gymraeg mewn Addysg ac yn cyflwyno adroddiadau arno.<br><br>**<u>Perfformiad Cyfredol</u>**<br><br>Mae'r ALI wastad wedi cydweithio'n agos gyda gweinyddwyr Cynllun Sabothol y Gymraeg Llywodraeth Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd i dargedu athrawon a chynorthwywyr addysgu yn ysgolion Cymraeg a Saesneg Caerdydd sy'n llawn cymhelliant ac a fyddai'n cael budd o astudio'r cyrsiau. Mae'r ddarpariaeth hyd yma wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar ysgolion ac wedi bod yn ddull effeithiol o godi safonau a hyder unigolion wrth addysgu'r Gymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith.<br><br>Yn ogystal, mae tîm Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yn | | |

DRAFT

DRAFT

<table>
<tr>
<td></td>
<td>ymgynghori â LIC ac yn cydweithio’n agos â hi ynghylch y Cynllun Sabothol, a hysbyswyd pob ysgol am y cyfle hwn.<br><br><u>Camau gweithredu a gynlluniwyd</u><br><br>Bydd yr ALI ac ysgolion yn parhau i roi cymorth i athrawon sy’n dymuno dilyn y rhaglen hyfforddiant sabothol. Bydd Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yn nodi ymarferwyr addas yn flynyddol ac yn eu cyfeirio i’r Cynllun Sabothol. Byddant hefyd yn rhoi cymorth dilynol i ymarferwyr sydd wedi mynychu’r rhaglen.<br><br>Mae’r tabl isod yn nodi nifer yr ymarferwyr sydd wedi mynychu cyrsiau Cymraeg a drefnwyd gan Wasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De fel rhan o’u datblygiad proffesiynol parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol 2013-14:<br><br>
<table>
<tr><th></th><th colspan="2">Cynradd</th><th colspan="2">Uwchradd</th></tr>
<tr><td>Caerdydd</td><td>Iaith gyntaf</td><td>Ail iaith</td><td>Iaith gyntaf</td><td>Ail iaith</td></tr>
<tr><td>Mynychwyr</td><td>180</td><td>75</td><td>-</td><td>-</td></tr>
</table>
</td>
<td></td>
<td></td>
</tr>
<tr>
<td>7.3<br><br>Integreiddio ystyriaethau cyfrwng Cymraeg i mewn i bob agwedd ar y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion</td>
<td><u>Perfformiad Cyfredol</u><br><br>Mae elfen Gymraeg strategaeth llythrennedd yr ALI wedi gweithio’n agos i ymgorffori elfennau o arfer da mewn ysgolion cynradd a dargedir, ac mae’r ysgolion hyn wedi cydweithio er mwyn dysgu oddi wrth ei gilydd a datblygu eu harfer eu hunain. Mae gwaith clwstwr mewn ysgolion Saesneg wedi arwain at fwy o gydweithio o lawer nag a gafwyd yn flaenorol, gan ganolbwyntio ar elfennau o arfer da sy’n gysylltiedig ag asesu gwaith disgyblion gan felly wella dilyniant a chynnydd rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd.</td>
<td>Dd/B</td>
<td>Cynnydd:<br><br>Mae’r ALI a Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De wedi parhau i flaenoriaethu cyrsiau Cymraeg ar gyfer pob ymarferwr, gan gynnwys</td>
</tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **<u>Camau gweithredu a gynlluniwyd</u>**<br><br>Gwneir defnydd effeithiol o arian Grant y Gymraeg mewn Addysg i gynorthwyo'r gwaith o sefydlu a datblygu Cymunedau Dysgu Proffesiynol o fewn ysgolion ac ar sail clystyrau a sail ranbarthol i rannu arfer da ac ymchwilio i strategaethau addysgu arloesol er mwyn cynorthwyo'r broses o wella safonau llythrennedd Cymraeg.<br><br>**<u>Perfformiad Cyfredol</u>**<br><br>Sefydlwyd Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De gyda'r nod o ddarparu gwasanaethau gwella ysgol a rennir, gan gynnwys cymorth ar gyfer addysgu Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith. Mae'r rhaglen DPP yn ymgorffori'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion drwy ganolbwyntio ar y canlynol:<br>• gwella safonau llythrennedd Cymraeg;<br>• gwella canlyniadau dysgu a lles plant a phobl ifanc waeth beth fo'u cefndir economaidd-gymdeithasol;<br>• lleihau'r amrywiaeth yn y canlyniadau dysgu o fewn dosbarthiadau ac ysgolion a rhyngddynt o fewn yr Awdurdod Lleol ac aelodau eraill y consortiwm;<br>• gwella safonau sgiliau Cymraeg athrawon drwy ddwy fenter yr ALI a chymunedau dysgu proffesiynol.<br><br>**<u>Camau gweithredu a gynlluniwyd</u>**<br><br>Bydd datblygiad parhaus Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yn rhoi ystyriaeth lawn i'r angen i gynnig her a chymorth priodol er mwyn gwella safonau Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith. | | Cynorthwywyr Addysgu.<br><br>Mae Cymuned Ddysgu Broffesiynol effeithiol iawn wedi'i sefydlu o fewn yr ALI ac ar draws Consortiwm Canolbarth y De, a bydd yn parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu a rhannu arfer da o ran y Gymraeg a'r ddarpariaeth Gymraeg.<br><br>Mae Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De wedi parhau i gynnig her a chymorth sy'n gwella ysgolion. Mae hefyd wedi sicrhau bod Grant y Gymraeg mewn Addysg yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gyflawni'r targedau a amlinellir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg . |

DRAFT

<table>
<tr>
<td></td>
<td>Caiff y broses o ddyrannu Grant y Gymraeg mewn Addysg ei chynllunio’n strategol ar sail consortiwm cyfan er mwyn cefnogi’r gwaith o gyflawni’r targedau a bennwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, sef:<br><br>
• gwella safonau addysgu (fel y’u mesurir gan adroddiadau arolygon Estyn ac adroddiadau hunanwerthuso ysgolion) sy’n arwain at wella cyflawniad dysgwyr Cymraeg iaith gyntaf a Chymraeg ail iaith ar draws pob cyfnod allweddol;<br>
• cynnydd yn nifer y dysgwyr sy’n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel gynradd ac uwchradd, fel y’i mesurir gan ganran y disgyblion ym mlynyddoedd 2, 6 a 9 a asesir mewn Cymraeg iaith gyntaf. Bydd hyn yn arwain at gynnydd yn nifer y dysgwyr sy’n astudio ar gyfer cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ôl nifer y dysgwyr sy’n sefyll arholiadau cyhoeddus;<br>
• cynnydd yn nifer y dysgwyr sy’n datblygu eu sgiliau Cymraeg mewn ysgolion Saesneg, gan fod hyn wedi’i fesur yn ôl canran y disgyblion a asesir mewn Cymraeg ail iaith ar ddiwedd blynyddoedd 6 a 9, ynghyd â chynnydd yn nifer y disgyblion sy’n dilyn y cwrs TGAU llawn neu debyg.<br><br>
Disgwylir i <u>allbynnau</u> gweithgareddau a gefnogir gan Grant y Gymraeg mewn Addysg gynnwys y canlynol:<br>
• bydd penaethiaid ac uwch dimau arwain yn rhagweithiol wrth hybu’r broses o wella safonau dysgu ac addysgu Cymraeg (iaith gyntaf ac ail iaith) fel y’u mesurir gan adroddiadau hunanwerthuso y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a fframwaith arolygu Estyn.</td>
<td></td>
<td></td>
</tr>
</table>

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Bydd athrawon ym mhob cyfnod dysgu yn hyderus yn eu gallu i addysgu'r Gymraeg (iaith gyntaf ac ail iaith) i ystod lawn o ddysgwyr yn eu dosbarthiadau.<br>• Bydd athrawon yn defnyddio asesu i nodi disgyblion sy'n tangyflawni mewn llythrennedd Cymraeg ac yn cynllunio ymyriadau effeithiol i gynorthwyo'r disgyblion hyn.<br>• Bydd gwaith y Gymuned Ddysgu Broffesiynol a gweithgareddau rhwydweithio eraill yn golygu y bydd ymarferwyr yn nodi a rhannu arfer da o ran addysgu Cymraeg/cyfrwng Cymraeg ac yn cynhyrchu adnoddau ieithyddol o ansawdd uchel. | | |

DRAFT

## Adran 3: Sylwadau a nodiadau pellach

**(dim mwy na 500 gair)**

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Caerdydd yn cwmpasu cyfnod o dair blynedd o Ebrill 2014 - Mawrth 2017. Mae'r fersiwn bresennol wedi'i diwygio i ddangos cynnydd yn erbyn y 7 canlyniad ac i gynnwys 17 Targed CAMPUS i dracio a monitro'n effeithiol sut mae Caerdydd yn cyflawni ei hymrwymiad i sicrhau mynediad i'r addysg Gymraeg orau posibl i bawb. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu drwy gydol y ddogfen ac wedi'u crynhoi mewn tabl yn Atodiad 4.

Bydd Caerdydd yn parhau i gysylltu â rhanddeiliaid drwy Fforwm y Gymraeg mewn Addysg a Chyfarfodydd Penaethiaid Cymraeg, a chydag awdurdodau lleol eraill a staff o fewn Consortiwm Canolbarth y De. Bydd hefyd yn edrych ar y cyfle i ddatblygu partneriaethau gyda Chyrff Iechyd i ddatblygu cyfleoedd cydweithio a rhannu gwaith ymhellach.

DRAFT

**Atodiad 1: Nifer a chanran y disgyblion sy'n mynychu lleoliadau Cymraeg nas cynhelir a lleoliadau Cymraeg nas cynhelir a ariennir sy'n darparu'r Cyfnod Sylfaen ac sy'n symud i ysgolion Cymraeg/dwyieithog**

| Enw'r Cylch Meithrin/Cylch Ti a Fi/lleoliad gofal plant Cymraeg nas cynhelir | Nifer y plant a symudodd i ysgolion Cymraeg<br><br>2014/15 | % y disgyblion a symudodd i ysgolion Cymraeg<br><br>2014/15 |
|---|---|---|
| Creigiau | 32 | 82.05% |
| Caerau | 9 | 81.82% |
| Dechrau'n Deg Blodau Bychain | 2 | 100% |
| Glan Morfa | 19 | 100% |
| Grangetown a'r Bae | 6 | 50% |
| Nant Lleucu | 16 | 59.26% |
| Pentrebaen | 15 | 100% |
| Pila Pala | 50 | 83.33% |
| Rhiwbeina | 42 | 93.33% |
| Trelái | 13 | 52% |
| Tŷ'r Cymry | 9 | 75% |
| Y Coed | 11 | 100% |
| Y Parc | 36 | 94.74% |
| Eglwys Newydd | 59 | 98.33% |

DRAFT

**Atodiad 2: Nifer a chanran y disgyblion mewn ysgolion cynradd Cymraeg a dwyieithog sy'n symud i ysgolion uwchradd Cymraeg**

| **Cyfanswm y disgyblion mewn ysgolion cynradd Cymraeg a dwyieithog** | **Canran y disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion uwchradd Cymraeg/ dwyieithog** | **Canran y disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion uwchradd Cymraeg neu ddwyieithog** |
|---|---|---|
| Ionawr 2013 – 3,117 disgybl | 430 disgybl | - |
| Ionawr 2014 – 3,304 disgybl | 425 disgybl | 98.83% |
| Ionawr 2015 – 4,127 disgybl | 473 disgybl | 97.0% |

DRAFT

**Atodiad 3: Cyrhaeddiad a pherfformiad Cymraeg Ail Iaith**

**Blwyddyn: 2015**

**Cyfnod Allweddol 2**

| | Nifer y disgyblion | Carfan Blwyddyn 6 | Canran y disgyblion | Nifer sy'n cyflawni Lefel 4+ | Canran sy'n cyflawni Lefel 4 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asesiadau athro mewn Cymraeg Ail Iaith ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2** | 2,777 | 3,456 | 80% | 2,066 | 74% |

**Cyfnod Allweddol 3**

| | Nifer y disgyblion | Carfan Blwyddyn 9 | Canran y disgyblion | Nifer sy'n cyflawni Lefel 5+ | Canran sy'n cyflawni Lefel 4 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asesiadau athro mewn Cymraeg Ail Iaith ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3** | 2,922 | 3,313 | 88% | 2,337 | 80% |

DRAFT

## Atodiad 4 – Targedau 2015 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg
### Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg – Atodiad Targedau 4

Nodir isod 17 Targed Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer 2015 i 2017.

| Canlyniad | Targed | 2014 (Nifer ar y Gofrestr) | 2015 (Nifer ar y Gofrestr) | 2016 (Targed) | 2017 (Targed) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad 1: Mwy o blant 7 oed yn cael eu haddysg yn Gymraeg** (o dudalen 6) | **TARGED 1:**<br>Cynyddu canran y plant 7 oed sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg i 16.2% o'r Nifer ar y Gofrestr erbyn Ionawr 2017. | 15.3% | 15.8% | 15.6% | 16.2% |
| | **TARGED 2:**<br>Sicrhau cynnydd o 90 lle ychwanegol mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn mis Medi 2017. | - | - | 30 cyfwerth ag amser llawn | 90 cyfwerth ag amser llawn |
| | **TARGED 3:**<br>Sicrhau bod 100% o'r disgyblion sy'n mynychu Canolfan Drochi yn mynd ymlaen i Addysg Cyfrwng Cymraeg erbyn mis Medi 2017. | 13/14<br>100% | 14/15<br>95% | 15/16<br>100% | 16/17<br>100% |
| | | **2014 (Nifer ar y Gofrestr)** | **2015 (Nifer ar y Gofrestr)** | **2016 (Targed)** | **2017 (Targed)** |
| **Canlyniad 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau ieithyddol wrth symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd** (o dudalen 19) | **TARGED 4:** Cynyddu canran y disgyblion blwyddyn 9 sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg i 13.7% ym mis Medi 2017. | 369 (11.2%) | 393 (11.8%) | 421 (13.0%) | 459 (13.7%) |
| | **TARGED 5:** Cynnal cyfartaledd cynyddol uwch na 97% ar gyfer y gyfradd sy'n trosglwyddo trwy'r Cyfnodau Allweddol erbyn mis Medi 2017. | 99% | 99% | 97% | 97% |

DRAFT

| | | 2014 (Nifer ar y Gofrestr) | 2015 (Nifer ar y Gofrestr) | 2016 (Targed) | 2017 (Targed) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad 3: Mwy o ddysgwyr 14-16 oed yn astudio i ennill cymwysterau yn Gymraeg** (o dudalen 21)<br>**Canlyniad 4: Mwy o ddysgwyr 16-19 oed yn astudio pynciau yn Gymraeg mewn ysgolion, colegau a dysgu yn y gweithle** | **TARGED 6:** Cynyddu canran y dysgwyr Blwyddyn 11 sy'n astudio 5 neu fwy o bynciau trwy gyfwng y Gymraeg i 11.7% erbyn mis Mawrth 2017. | 387<br>11.0% | 383<br>11.6% | 366<br>11.1% | 3986<br>11.7% |
| | | **2014 (Nifer ar y Gofrestr)** | **2015 (Nifer ar y Gofrestr)** | **2016 (Targed)** | **2017 (Targed)** |
| **Canlyniad 5: Mwy o ddysgwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg** (o dudalen 26) | **TARGED 7:** 90% o ddysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn cyrraedd Canlyniad 5 y Cyfnod Sylfaen mewn Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu mewn ysgolion Cymraeg erbyn mis Mawrth 2017. | 90% | 93% | 90% | 90% |
| | **TARGED 8:** 90% o ddysgwyr Cyfnod Allweddol 2 yn cyrraedd o leiaf lefel 4 yn yr asesiad athro erbyn diwedd y Cyfnod Allweddol erbyn mis Mawrth 2017. | 90% | 94% | 90% | 90% |
| | **TARGED 9:** 92% o ddysgwyr Cyfnod Allweddol 3 yn cyrraedd o leiaf lefel 5 yn yr asesiad athro erbyn diwedd y Cyfnod Allweddol erbyn mis Mawrth 2017. | 94% | 93% | 92% | 92% |
| | **TARGED 10:** 85% o ddysgwyr Cyfnod Allweddol 4 yn cyflawni graddau A* - C yn eu TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf erbyn mis Mawrth 2017. | 82% | 83% | 84% | 85% |
| | **TARGED 11:** 70% o ddysgwyr Cyfnod Allweddol 2 yn cyrraedd o leiaf lefel 4 erbyn diwedd y Cyfnod Allweddol erbyn mis Mawrth 2017. | 74% | 74% | 70% | 70% |
| | **TARGED 12:** 75% o ddysgwyr Cyfnod Allweddol 3 yn cyrraedd o leiaf lefel 5 erbyn diwedd y Cyfnod Allweddol erbyn mis Mawrth 2017. | 77% | 80% | 75% | 75% |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **TARGED 13:** Cynyddu nifer y disgyblion sy'n dilyn cwrs TGAU llawn Cymraeg Ail Iaith ac yn cael graddau o A* i C i 77% erbyn mis Medi 2017. | 74% | 75% | 76% | 77% |
| | **TARGED 14:** Sicrhau cymaint o welliant â phosibl yng Nghyfnod Allweddol 4 trwy godi % y disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Allweddol sy'n cwblhau cyrsiau byr Cymraeg Ail Iaith i 43% erbyn mis Mawrth 2017. | 37% | 41% | 42% | 43% |
| | **TARGED 15:** Cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n mynd ymlaen i lefel AS/A i 3% (82 disgybl) o'r grŵp sy'n gorffen eu TGAU Cymraeg erbyn 2017. | 92 (3.4%) | 72 (2.6%) | 77(2.8%) | 82 (3%) |
| | | **2014 (Nifer ar y Gofrestr)** | **2015 (Nifer ar y Gofrestr)** | **2016 (Targed)** | **2017 (Targed)** |
| **Canlyniad 6: Darpariaeth Gymraeg i ddysgwyr - Anghenion Dysgu Ychwanegol** (o dudalen 40) | **TARGED 16:** Cynyddu nifer y llefydd sydd ar gael mewn CAA uwchradd cyfrwng Cymraeg o 12 lle i 20 lle erbyn mis Medi 2017. | 12 | 12 | 12 | 20 |
| | | **2014 (Nifer ar y Gofrestr)** | **2015 (Nifer ar y Gofrestr)** | **2016 (Targed)** | **2017 (Targed)** |
| **Canlyniad 7: Cynllunio'r gweithlu a Datblygiad Proffesiynol Parhaus** (o dudalen 44) | **TARGED 17:** Dim swyddi addysgu gwag mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ar ddechrau Blwyddyn Academaidd 2017. | 0 | 4 | 0 | 0 |

DRAFT